# ECO'R WYDDFA

RHIF 320 MAWRTH 2005 PRIS 40c



*Yn y rhifyn hwn:*

- **Vanta yn ôl** tud.3
- **Ymweld â rhaeadr Niagara** tud. 7
- **Holi Emily Huws** tud. 7
- **CD yr gan ŵr a gwraig o Fro'r Eco** tud. flaen


# Oriau Di-gwsg Efo Babi Newydd?

## Un o Famau'r Fro yn Helpu

**MAE un o famau'r ardal wedi helpu i greu CD newydd fydd yn helpu babanod gysgu.**

Fe gafodd Anna Marie Robinson, o Benisarwaun, y syniad o wneud CD llawn hwiangerddi Cymraeg ar ôl nosweithiau hir di-gwsg yn magu ei dau o blant. Felly dyma fynd ati i gysylltu hefo cwmni recordiau SAIN i weld a oedd ganddyn nhw ddiddordeb yn y syniad.

Er bod nifer o hwiangerddi eisoes wedi eu recordio dros y blynyddoedd, doedd yna 'run casgliad cyflawn yn arbennig i suo plant i gysgu ar gael yn Gymraeg, er bod digon o ddewis mewn ieithoedd eraill. Felly dyma SAIN yn cytuno i fynd ati i baratoi'r CD newydd. Bu Anna yn cymryd rhan yn y broses o ddewis yr artistiaid – rhai yn gyfraniadau hunan ddewisol gan nifer o berfformwyr; rhai yn hwiangerddi traddodiadol ac eraill yn ganeuon newydd sbon, wedi eu hysgrifennu gan yr artistiaid ar gyfer eu plant eu hunain.

Meddai Anna, sy'n wraig i Tudur Huws Jones – un o'r artistiaid sy'n canu ar y CD ac sydd newydd rhyddhau CD newydd ei hun *(stori isod)*.

'Mae pob rhiant bron wedi gorfod codi am dri y bore i drio swyno'r babi 'nôl i gysgu.

'Tra'n gwneud hyn noson ar ôl noson a cheisio canu i gael Magi a Moi i gysgu – efallai mai fy llais oedd ar fai – mi benderfynais chwilio am CD o suo-ganeuon Cymraeg. Methu canfod un, ond wrth wneud ymchwil ar y we dod ar draws safle BBC Radio 3 lle roedd *'Top Ten'* lullabies o draws y byd, a rheiny wedi eu recordio gan rieni 'normal' yn eu mamiaith – er enghraifft Swahili, Pwyleg, ac Eidaleg – doedd rhain ddim yn gantorion proffesiynol.

Roedd yn hynod o drawiadol a naturiol efo'r llais a rhythm pob cân yn suo. Dyma fynd ati i sgwennu fy syniadau ar bapur – pa fath o CD fyddai, pwy fyddai'n cyfrannu, o ble byddai'r caneuon yn dod a, blwyddyn yn ddiweddarach, dyma hi ar werth.




'CD wedi ei hanelu at rieni babis a phlant ifanc ydi hi – rhywbeth i'w rhoi 'mlaen yn oriau mân y bore, gyda chymysgedd o ganeuon traddodiadol, sydd unai eisioes wedi eu recordio neu yn bodoli a heb eu recordio, a hefyd ganeuon gwreiddiol. Mae'r pwyslais ar y llais yn hytrach nag offerynnau. Y syniad oedd ceisio rhoi'r teimlad mai llais mam, dad, nain neu taid sydd yn canu.

Mae yna ganeuon gwreiddiol gan sawl artist: Steve Eaves wedi sgwennu 'Nos Da Mam' o safbwynt y plant yn eu gwlâu; Iwan Llwyd wedi sgwennu a chanu am ei ferch 'Rhiannon'; Geraint Lovgreen yn canu cân yr oedd ei fam yn ei ganu iddo fo pan yn blentyn, 'Myfi sy'n magu'r baban'; Catrin Edwards a Dyfan Roberts wedi cyfansoddi'r gân, 'Nos Da 'Nawr' ac Acoustique yn ei chanu, ac mae Dafydd Iwan wedi cyfieithu cân draddodiadol hyfryd Corsican i'r Gymraeg.'



## Cystadleuaeth Nadolig Llyfrgell Gwynedd

Llongyfarchiadau mawr i Magi Tudur, 5oed, ar ennill cystadleuaeth Nadolig Llyfrgell Gwynedd. Cyflwynwyd ei gwobr, sef bocs crefftau, dvd, a 2 lyfr, iddi yn Llyfrgell Deiniolen dydd Llun 24 Ionawr. Mae Magi yn ddisgybl yn Ysgol Penisarwaun.

Diolch i pawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth a chofiwch edrych allan am gystadlaethau a digwyddiadau eraill yn Llyfrgelloedd yr ardal yn y misoedd nesaf.

Rhian Wyn Parry Evans
Llyfrgellydd Cynorthwyol

# O Fro'r Eco i Golorado!

**MAE cân am ŵr o Lanberis a ymfudodd i'r America, ac a saethodd ddyn arall mewn ffrae dros ferch, i'w chlywed ar CD newydd gan gerddor o ardal yr *Eco*.**

Gadawodd Griffith Evans ei filltir sgwâr yn Llanberis rywbryd yn ystod canol y 19eg Ganrif, ac mae cofnod iddo brynu tir yn Estes Park, ger Denver, Colorado, yn 1867. Roedd o â'i lygaid ar wraig o'r enw Isabella Lucy Bird, ac roedd hithau'n hoff ohono yntau, er gwaetha'r arogl wisgi ar ei wynt. Byddai Griff a hi'n marchogaeth yn y Rockies gyda'i gilydd, ac roedd o'n credu ei bod hi'n gwella'r hangofyrs yr oedd o'n eu dioddef yn fynych oherwydd ei hoffter o'r wisgi. Ond roedd calon Isabella yn eiddo i un arall oedd hefyd yn ffond o'r ddiod gadarn – Gwyddel o'r enw 'Mountain' Jim Nugent.

Nid oedd Griff yn hapus ynglŷn â'r datblygiadau, ac ar ben hynny credai fod Mountain Jim ar ôl ei ferch, Jinnie. Aeth pethau o ddrwg i waeth rhwng y ddau, ac un diwrnod fe saethodd Griff Mountain Jim yn gelain. Plediodd yn ddieuog ar y sail mai ei amddiffyn ei hun yr oedd, ac aeth yn rhydd.

Pwy a ŵyr ai gwir neu gelwydd oedd ei stori, ond mae'r cerddor Tudur Huws Jones, sy'n byw ym Mhenisarwaun, wedi ffurfio cân o gwmpas yr hanes, ac mae'n cynnig ei ddehongliad ef o'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd.

Meddai, 'Dwi'n cofio darllen yr hanes mewn llyfr o'r enw *A Gallery of Dudes* flynyddoedd yn ôl, a gwneud cofnod o'r stori i'w defnyddio fel sail i gân rhywbryd. Fe'm hatgoffwyd o'r stori yn llyfr Dafydd Mei, *Cowbois o Gymru*, a gyhoeddwyd flwyddyn neu ddwy yn ôl bellach, ac fe ddaeth cyfle i'w throi'n gân pan gefais gynnig gwneud CD gan gwmni Sain. Mae gen i fy nehongliad fy hun o'r hyn ddigwyddodd, a dwi wedi defnyddio hwnnw yn y gân, ond wna i ddim datgelu mwy ar hyn o bryd…

'Cân *bluegrass* ydi hi, oherwydd natur y stori am wn i, ond hefyd am fy mod wrth fy modd hefo'r math yna o gerddoriaeth,' meddai Tudur, sy'n chwarae'r banjo a'r mandolin, yn ogystal â chanu ar y trac. Mae Tudur yn adnabyddus fel cerddor sesiwn ac aelod o nifer o grwpiau gwerin, gwerin/roc dros y blynyddoedd, ond dyma ei CD unigol gyntaf. Mae Mountain Jim yn un o 14 o ganeuon ac alawon ar y CD – y rhan fwyaf wedi eu cyfansoddi gan Tudur ei hun.

Newyddiadurwr (golygydd *Yr Herald*) ydi Tudur wrth ei waith bob dydd. Mae wedi bod yn aelod o sawl grŵp, megis Odyn Galch, Cilmeri, 4 yn y Bar, Y Cynghorwyr, Branwen a Gwerinos. Mae wedi chwarae ar recordiau nifer o artistiaid dros y blynyddoedd, yn cynnwys Dafydd Iwan, Tecwyn Ifan, Hogia Llandegai, Bryn Fôn a Siân James. Mae'n briod a chanddo ddau o blant.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 320**
**MAWRTH 2005**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com
Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD BWNDELU**
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 21 MAWRTH**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 31 MAWRTH**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|
| EBRILL | 21 Mawrth | 31 Mawrth | Waunfawr | Nan Roberts | 650570 |

## *Llythyrau*

Rhedynog,
Caernarfon

Annwyl Olygydd,

Difyr iawn oedd darllen atgofion Elfed Thomas am Ffair Nant gan ei wyres, Llinos. Bûm yn gweithio gydag Elfed a'i frawd, Bob, yn Ysgol Segontiwm, sy'n cael ei thynnu i lawr rwan gwaetha'r modd. Difyr iawn oedd sgwrs y ddau wybodus yma bob amser. Roedd Elfed yn artist ardderchog ac mae llun a baentiodd o raeadr Llanberis gennyf yn y tŷ.

Clywais fy nhad yn sôn am y tric o glymu rhaff o'r stondinau i sharabang *'solid tyers'* Rhiwen, Deiniolen, a'r hwyl a'r gweiddi yn dilyn hynny. Galwai'r stondin inja-roc yn 'pull-away' gan eich bod yn tynnu handlen am geiniog neu ddwy, a byddai pêl yn taro inja-roc i lawr. Roedd rhai o amrywiol faint yno ond rhai bach fyddai'n cael eu taro gan amlaf.

Buasa'n dda cael mwy o atgofion Elfed yn yr Eco. Diolch yn fawr.

Yn gywir,
Margaret W. Roberts

---

Annwyl Olygydd,

Rwyf newydd ailddarllen llyfr Thomas Phillips (Ap Iolen), *Bro Deiniol: Atgofion Plwyf Llanddeiniolen*, a ddaeth allan o Wasg y Bala yn 1936. Mae pennod 9 'Enwogion' (parhad) yn sôn am Robert Phillip, Tanrallt, Dinorwig, arweinydd enwog Côr Meibion Arfonic. Rhag gwneud cam dyma dri pharagraff:

*'Bu y cor hwn am dymor yn llwyddiannus dan ei arweiniad yng ngwyliau cerddorol Albert Hall, Llundain, a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ceid corau gorau y deyrnas yn cystadlu yn yr Albert Hall, ac os yw'r atgof yn gywir, credwn iddo gystadlu â chôr o bigion St. Paul's, yr hwn oedd dan hyfforddiant Dr Stainer, ac iddynt orchfygu. Cof gennyf iddynt gystadlu yn Eisteddfod Lerpwl tua'r flwyddyn 1880. Y prif ddarn cerddorol yn y ddwy ornest oedd 'The Martyrs of the Arena'. Allan o tua 44 o gorau hwy a gipiasant y wobr. Cynhelid yr Eisteddfod hon yn 'The Old Haymarket'.*

*Cof gennyf fod yn eistedd gyda'r arweinydd yn gwrando ar y corau. Tua'r nawfed ar y rhestr, galwyd ar yr Arfonic i'r llwyfan, a chanodd yn fendigedig. Ymhen ychydig amser daeth y beirniaid ymlaen ar y llwyfan i draddodi y feirniadaeth, ac ar ôl mesur a phwyso y gwahanol gorau, dyfarnodd y Dr McFarren, Llundain, yr Arfonic yn fuddugol yng nghanol cymeradwyaeth y dorf. Wedi hynny galwyd ar yr arweinydd ymlaen i gael ei anrhydeddu, galwyd drachefn a thrachefn, ond nid oedd arwydd ohono yn unman. Cymeriad oedd yn caru'r encilion, ni charai unrhyw ffys. Y diwedd fu i Griffith Phillips fynd i'r llwyfan i gynrychioli ei frawd.*

*Pan ar ymweliad â Chymru aethum i Danrallt, i edrych am y teulu...... Daeth gyda mi i'r tŷ, ac ar ôl ymgom yma a thraw, cyfeiriais at frwydrau'r côr, wedi hynny dangosodd i mi y gwobrau, yn goronau, batynau, aur ac arian, nifer o tua 22, a enillodd y côr.'*

Mae'n debyg mai Dr Rogers, organydd Eglwys Gadeiriol Bangor, a'i dilynodd fel arweinydd.

Fe ddylai ardal Dinorwig fod yn falch o'i chewri.

Yn gywir
W.J. Lewis.
*(Parch Wm John Lewis, Llanfairpwll – un o blant yr hen ardal.)*

Roedd Thomas Phillips, Tanrallt, yn hen daid i Miss Nancy Catherine Williams, gynt o Danrallt ac sydd ar hyn o bryd yn byw yn 15 Bryn Tirion, Penisarwaun.

---

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF

Annwyl Olygydd,

Tybed a gaf i drwy gyfrwng colofnau *Eco'r Wyddfa* atgoffa eich darllenwyr o rai newidiadau i gyfarfodydd Awurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod 2005.

Fel arfer, bydd yr Awdurdod yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog ac mae'r cyfarfodydd hynny yn agored i'r cyhoedd. Fodd bynnag, cynhelir cyfarfod nesaf yr Awdurdod yng Nghanolfan Hamdden y Bala ddydd Mercher, Mawrth 16eg er mwyn ei gwneud hi'n haws i drigolion fynychu cyfarfodydd yr Awdurdod.

Fel arbrawf eleni, yr ydym yn gwahodd aelodau'r cyhoedd, drwy drefniant arbennig o flaen llaw, i ofyn cwestiynau penodol i'r Awdurdod ynglŷn ag unrhyw fater (ar wahân i geisiadau Cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc. Paratowyd canllawiau arbennig gan yr Awdurdod eisoes ynglŷn â sut i wneud cais am ofyn cwestiwn, ac mae'r canllawiau hynny ar gael o'n Swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth.

Os hoffech gopi o'n canllawiau i holi cwestiynau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, mae croeso i chi gysylltu â mi, naill ai drwy e-bost, parc@eryri-npa.gov.uk neu drwy'r post: Y Prif Weithredwr, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF neu drwy ffonio Swyddfa'r Parc ar 01766 770274.

Edrychwn ymlaen at gael clywed eich cwestiynau, ac at gael cyfarfod darllenwyr *Eco'r Wyddfa* yn ein cyfarfod yn y Bala.

Yn gywir,
Aneurin Phillips
Prif Weithredwr


**Gwlad o Gân**
**THEATR GOGLEDD CYMRU**
**LLANDUDNO AM 7.30**
**EBRILL 21**
**JONSI'n** cyflwyno
**John ac Alun**
**Brenda Edwards, Mon-heli**
**Tonig a Sara Mai a'r Moniars**
Dewch i Ddathlu'r Deg mewn clincar o noson!
Tocynnau £8.50 o'r theatr
**01492 872000**
**CYSTADLEUAETH I ENNILL 2 DOCYN YN Y RHIFYN NESAF**


## Drama Newydd

'Ffernols Lwcus' yw drama newydd Bara Caws, sef addasiad gan Bryn Fôn o ddrama John Godber, *Lucky Sods*, gyda Gwenno Elis-Hodgkins, Eilir Jones, Catrin Fychan a Wyn Bowen Harris yn cymryd rhan. Y cyfarwyddwr fydd Tony Llewelyn.

Bydd perfformiadau yn agos i ardal *Eco'r Wyddfa* ym mis Ebrill ar y dyddiadau canlynol:

**Theatr Gwynedd, Bangor:** Gwener a Sadwrn, 8 a 9 Ebrill;

**Neuadd Dwyfor, Pwllheli:** Iau a Gwener, Ebrill 14 a 15.

**Galeri, Caernarfon:** Sadwrn, 23 Ebrill.


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**London House**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 673574**
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

# Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

## Tri, Dau o Bosib, ond Un, sy'n Llawn Posibilrwydd

Mis diwetha' d'wedais y buaswn yn ceisio dychwelyd at bwnc adar yn cyfri'. Ebe'r diweddar T. G. Walker (yn) *Cant o Gwestiynau Seiat Byd Natur* (1971) t.t.75-76 '... *yr hanes o Fae Colwyn, am y gwylanod yn ymateb i'r galwadau ar y corn-rhybudd* ... nid *nifer y nodau oedd yn rheoli ymddygiad yr adar ond hyd y nodau oedd yn dweud pa bryd oedd hi'n ddiogel, a pha bryd roedd hi'n enbyd*, (**enbyd** y gelwid amser tanio, a ffrwydro dernyn o graig yn y chwareli), *nid oedd dim perygl yn y nodau byrion ond am yr un nodyn hir, hwnnw oedd yr arwydd i gymryd sylw ohono!*

Beth felly am hanes yr amaethwr, a'r *frân* tra anffodus, yn y flwyddyn 1900? Cymerodd yr aderyn yn ganiataol fod yr hoewal wedi'i wagio ac nad oedd dyn bellach ar ei gyfyl. Mae'n rhaid bod eisiau bwyd yn gythre'lig arni.

Ebe'r diweddar Ted Breeze Jones yn *Canlyn y Camera. Ail Ddyddiadur Naturiaethwr* (1990): *Treuliais wythnosau lawer yn cuddio mewn pebyll ... yn tynnu lluniau'r adar. Nid yw'r dull safonol effeithiol o dynnu llun aderyn ger ei nyth wedi newid nemor ddim ers cyfnod yr arloeswyr, ymron i gan mlynedd yn ôl.* [Erbyn hyn, pan fo'n fater o ffotograffu nythod adar y mae Deddf Gwlad yn bodoli, sy'n amddiffyn yr adar rhag ymyrra'th dynol. Byd cïaidd ydyw hwn ar adega', a gwreiddyn llawer o'r drwg ydy' dyn ei hunan, a'i ymyrraeth.

Ychydig flynyddoedd yn ôl yng nghyffinia' Caergybi, heidiodd miloedd ar filoedd o gamerawyr i'r rhan honno o'r Fam Ynys, er mwyn ca'l gweld a ffotograffu'r *ehedydd du* o fynyddoedd yr Iwral, yn Rwsia, Do, tynnwyd sylw at yr aderyn rhyfeddol, ond bu hefyd gryn ffagio ar dirwedd, heb yr un blewyn o ofal am fywyd gwyllt a oedd eisoes yn bodoli yno.

Ond dychwelaf at dystiola'th Ted Breeze Jones, a'i brofiad o osod cuddfan, er mwyn ffotograffu adar: *Mae'n hanfodol*, ebe ef, *symud cuddfan fechan yn ofalus, fesul cam at y nyth, a chael yr adar i gynefino â hi'n llwyr, ac wedyn diflanna'r ffotograffydd i'w chysgod. Yna*, {dalier sylw ar hyn}, *cerdda cymar ymaith yn hamddenol, i dynnu sylw'r adar.* Un person! Presenoldeb!

Dywedir ymhellach: *Fe ddylai'r adar ddychwelyd i'w nyth heb sylweddoli fod y ffotograffydd yn cuddio gerllaw. Rhyfeddaf yn aml mor llwyr fydd y ddichell hon yn twyllo'r adar, a'r guddfan wedi'i derbyn ganddynt yn rhan naturiol o'u cynefin. Gan fod cynefin nythu'r Gwylanod mor wastad, bydd to'r guddfan fel magnet iddynt i glwydo arno. Popeth yn iawn*, (a dyma hiwmor Ted ar ei ora'), *a phob croeso i'r Gwylanod, ond nid pan fyddaf y tu mewn iddi, gan fod Gwylan sy'n sefyll ar y to hefyd yn sefyll ar gorun y ffotograffydd! Mae cryn bwysau ar wylan o'i chynnal ar eich pen am rai oriau.*

Adar yn medru cyfrif? Tybed yn wir? Mae'n debyg bod ar ga'l ambell *frân* heb fod mor gyfrwys a darbodus â'i chymheiriad! Os mai bwyd ydyw ei nod, yna 'does dim â'i deil rhagddo. Mentra, er gwaethaf presenoldeb bodau dynol. Felly'r frân yng nghylchgrawn *Y Perl* yn y flwyddyn 1900! Na! 'does a wnelo'r digwyddiad ddim byd o gwbwl – hefo cyfri'!

**Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi, 2005**

*(yn agored i bob oedran, tal, bach neu fawr, annwydog neu'n ddi-annwyd)*

Ewch ati drwy gyfrwng y Gymraeg i gwblháu rhestr o enwau'r gwahanol wylanod sydd ar gael yma yng Nghymru.

Cofiwch ddefnyddio eich siopau llyfrau Cymraeg a'ch llyfrgelloedd agosaf. Bydd teitlau'r llyfrau isod efallai o gymorth pellach i chwi:


ELIAS, Twm. *Gwylio Adar.* Gomer, 1996.
LEWIS, Dewi. *Enwau Adar.* Carreg Gwalch, 1994.
JONES, Ted Breeze. Darluniau gan Islwyn Williams, Penisarwaun. *Adar y Glannau.* Dwyfor, 1983.
JONES, Ted Breeze, *Pa Aderyn?* Gomer, 1988.
PARRY, Meirion. *Casgliad o Enwau Adar.* Caerdydd: Prifysgol Cymru, 1962.
WALKER, T. G. *Adar y Glannau.* Caerdydd: Prifysgol Cymru, 1955.

Danfonwch y rhestr, eich enw'n llawn, a'ch cyfeiriad, at Ddafydd Guto, Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi, 2005, Y Nyth, Neuadd Glasgoed, LLANRUG, Gwynedd LL55 3BB.

Y mae gennych union bythefnos i gyflenwi'r dasg. Un wobr sy' 'na. Ie, *Llyfr Adar Iolo*, y diweddaraf o gorlan Iolo Williams, a gobeithir sicrháu cyfrol wedi ei harwyddo gan yr awdur ei hunan.


**GWERSI PIANO A CHANU**
Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746


# VANTA YN ÔL



WEDI cyfnod tawel yn ystod y deunaw mis diwethaf, mae'r band Vanta, o Fethel a Llanrug, wrthi'n gweithio ar albwm newydd. Yn dilyn llwyddiant 'Pedair Stori Fer' (2001) a 'Dagrau Llawenydd' (2002), a ryddhawyd ar label RASP/ Fflach o Aberteifi, dechreuwyd ar y gwaith o recordio deunydd newydd yn Stiwdio Pandy, Pentraeth ar ddiwedd 2004, ac mae'r gân gyntaf i gael ei chwblhau, 'Tri Mis a Diwrnod', wedi cael derbyniad gwresog iawn ers i Champion FM a Radio Cymru ddechrau ei chwarae yn ystod mis Chwefror, gyda Jonsi yn datgan ei fod wrth ei fodd yn clywed cynnyrch newydd gan yr hogiau, gan mai Vanta yw un o'i hoff fandiau!

Gyda chymaint o waith i'w wneud i gynhyrchu albwm, serch hynny, a'r hogiau bellach yn gorfod cyfarfod ar benwythnosau i ymarfer, 'sgwennu a recordio, gan fod Gerallt, y drymar, erbyn hyn yn gweithio fel cyfreithiwr yng nghyffiniau Caer, a Mei, sy'n canu, yn dilyn cwrs MA Hanes Cymru yn Aberystwyth, mae'n debyg y bydd hi rywbryd tua'r haf erbyn y bydd y deunydd newydd ar gael yn y siopau. Ond ni fydd yn rhaid disgwyl mor hir â hynny i glywed mwy o ddeunydd newydd, serch hynny, gan fod cân arall a recordiodd yr hogiau yn Stiwdio Pandy yn ddiweddar, sef 'Enfys Bell', wedi cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Cân i Gymru 2005, a fydd yn cael ei chynnal yn y Newport Centre, Casnewydd, ac yn cael ei darlledu yn fyw ar S4C, ar nos Fawrth, 1af Mawrth.

Bu'r hogiau i lawr yn y Ffatri Bop yn y Rhondda yn ddiweddar i ailrecordio'r gân ar gyfer y gystadleuaeth, ac maent yn edrych ymlaen yn arw at gael ei pherfformio'n fyw o flaen cynulleidfa fawr ar y noson, cyn dychwelyd i'r stiwdio i gwblhau'r record newydd. Felly pob lwc iddyn nhw, a chofiwch bleidleisio.


**Dylan Griffith**
**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL**
**TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**
**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd**
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**
Symudol: **07778 127394**

**HEFYD**
**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

# CHWILOTA



## Alawydd Gwylfa a'i Gydymaith Ffyddlawn

Daeth gwybodaeth i law yn dilyn cais a wneuthum yn ystod misoedd olaf y llynedd, am Owen Robert Jones o Seion, Llanddeiniolen. Galwai ei hun yn Alawydd Gwylfa. Prin yw'r wybodaeth amdano, ond tybir ei fod yn perthyn i Griffith Robert Jones oedd yn byw yn Erw Ffynhonnydd, Bethel. Hyd yma, ni chafwyd sicrwydd pendant o hyn. Yn ôl cofnodion cyfrifiad 1901, roedd yn byw yn 16 Cae Rhos Terrace, Seion, yn 53 mlwydd oed, ac wedi ei eni ym Mangor. Ei briod oedd Anne Jones, 39 mlwydd oed, yn enedigol o Lanidan ym Môn. Roedd dau o blant gartref ar y pryd, sef Hugh (16 oed) ac Anne (10 oed), y ddau wedi eu geni ym mhlwyf Llanddeiniolen. Roedd y tad a'r mab yn gweithio yn y chwarel. Bu Owen Robert Jones farw yn 1919 yn 71 mlwydd oed, a'i weddw yn 1932. Claddwyd y ddau ym mynwent Llanddeiniolen. Mae englyn o eiddo Glan Rhyddallt ar y garreg fedd i goffau Owen:

Y gerdd wyl garai ddilyn – ir ac hoff
Awdur cân ac emyn,
Awenydd gwiw, duwinydd gwyn,
A gŵr i Dduw fo o'r gweriddyn.

Dyna'r ychydig ffeithiau moel am y gŵr a alwai ei hun yn Alawydd Gwylfa, ac a gyhoeddodd lyfryn bychan yn 1902 o'r enw *Cydymaith Ffyddlawn*. Mae copi ar gadw yn Llyfrgell y Brifysgol, Bangor. Rhennir y llyfryn yn dair rhan. Yn y rhan gyntaf ceir wyth deg a chwech o benillion ar *'faterion duwinyddol'*, ac yn y drydedd rhan ceir ysgrif ar *'Ffyddlondeb i Grist'*.

Mae'r ail ran yn llawer mwy diddorol i ddarllenwyr presennol yr *Eco*, sef cerdd goffa am bedwar deg ac un o drigolion yr ardal oedd yn aelodau yng Nghapel Seion, Llanddeiniolen. Ceir hefyd fywgraffiadau byr am Robert Davies, Y Gwyndy; Erasmus Thomas, Llys y Gwynt; William Jones, Shop (pryd tybed y bu siop ar agor yn Seion ddiwethaf?); William Thomas, Ty'n Rhos; Owen Jones, Ty'n Llidiart; Robert Griffiths, Llys y Gwynt; Hugh Gwynton Jones, Ty'n y Maen a Hugh Williams, Cae Gwydryn.

Mae'r wybodaeth yn rhai o'r byr gofiannau hyn yn ddiddorol iawn. Cawn fod Erasmus Thomas wedi ei eni yn Llys y Gwynt tua 1800, a'i dad, Richard Thomas yn delynor, yn wneuthurwr telynau ac yn cyd-oesi â Rhisiart Morris a'i wraig, Marged uch Ifan. Gallai Erasmus Thomas hefyd chwarae'r delyn, a bu'n canu'r bass viol yn y capel am rai blynyddoedd. Roedd hyn yn amlwg cyn i harmonium ac organ gael eu derbyn fel offeryn cerdd addas i addoldy!

Ar dyddyn Cefn y Gryddyn y ganwyd Wiliam Jones, ac ar dir y tyddyn yr adeiladwyd Capel Seion. Roedd William Jones, nid yn unig yn flaenor yn y capel, ond yn glochydd y plwyf hefyd, swydd y bu ei fab yn ei dal ar ei ôl. Bu yn America am gyfnod, ond ar ôl dychwelyd, adeiladodd dai Seion Terrace, gan gynnwys tŷ a siop, a sefydlu busnes fel groser a gwerthwr blawdiau. Aeth brawd iddo, Erasmus Jones, yn genhadwr i'r caethion yn America.

Yr oedd Hugh Gwynton Jones yn llenor ac yn fardd. Enillodd ar gywydd i'r 'Wawr' yn Eisteddfod Pwllheli yn 1889, ac ar amryw o destunau eraill mewn eisteddfodau llai. Gallai ddarllen cerddoriaeth ar yr olwg gyntaf a bu'n arweinydd y canu yng Nghapel Seion am nifer o flynyddoedd.

Mab Cae Rhos oedd Hugh Williams, a symudodd i'r Felinheli i fyw gan mai Cyfrifwr Llechi yn y porthladd oedd ei waith. Roedd yntau hefyd yn gerddor, ac yn chwarae'r harmonium yng Nghapel y Wesleaid yn y Felinheli. Symudodd i fyw'n ddiweddarach i Gae Gwydryn, a bu'n gyfeilydd ac arweinydd y canu yng Nghapel Seion.

Roedd cysylltiadau teuluol rhwng amryw o'r cymeriadau hyn, a llawer ohonynt yn deillio o deulu Llys y Gwynt. Byddai'n ddiddorol gwybod a oes disgynyddion i rai o'r cymeriadau hyn yn parhau i fyw yn ardal Seion heddiw.

### Prynu Glynrhonwy

Yn ddiweddar deuthum ar draws cofnod yn cyfeirio at werthiant fferm Glynrhonwy a nifer o ddaliadau eraill ym mhlwyf Llanrug; tiroedd y tybiwn iddynt fod ym mherchnogaeth Stâd Glynllifon ers canrifoedd. Mae'r ddogfen yn ddyddiedig 27ain o Fai 1736, ac yn cyfeirio at drosglwyddo tir Glyn-rhonnyn (sef Glyn Rhonwy), Carreg y Frân, Tyddyn Mawr, Tyddyn y Fron, Isallt, Thyddyn y Corn ac eraill (nas henwir) ym mhlwyf Llanrug i Thomas Wynne, Glynllifon am bris o £1313. 2s. 0c. Fe'i gwerthwyd iddo gan Hugh Kennedy a'i wraig Catherine. Disgrifir Hugh Kennedy fel gŵr bonheddig o Clerkenwell, Llundain. Yr oedd Catherine, ei wraig, yn aeres i Catherine Ellis, a etifeddodd yr eiddo yn dilyn marwolaeth ei gŵr, y Parch John Ellis yn 1707. Methais hyd yma a darganfod mwy o wybodaeth fanwl am y perchnogion gwreiddiol hyn, ond mae'n ymddangos fod ganddynt gysylltiadau â Stâd y Wern ym Mhenmorfa.

Roedd Thomas Wynne, Glynllifon yn awchu tir yn ystod y cyfnod hwn – unai drwy deg neu drwy drais. Yn wir, bu bron â hawlio fferm arall ym mhlwyf Llanrug tua'r un cyfnod, sef Eithin Duon. Roedd y fferm honno yn eiddo i Goleg Magdalene, Caergrawnt, a'r rhent o'i gosod, ynghyd â rhent ffermydd eraill o'u heiddo ym Môn ac Arfon, yn cael ei ddefnyddio i ariannu Ysgoloriaeth Hughes.

Gosodwyd y fferm ar lês i deulu Glynllifon, ond erbyn 1730 roedd Thomas Wynne yn ceisio ei hawlio, a bu'n rhaid i'r coleg fynd i gyfraith i sicrhau eu hawl ar y tir a'r rhent.

### Eisteddfod Llanrug

Derbyniais gopi o Restr Testunau Eisteddfod Capel Mawr, Llanrug am y flwyddyn 1951. Cynhelid y steddfod honno ar bedair noson yn olynol ym mis Chwefror, ac yr oedd rhagbrofion yn cael eu cynnal ar gyfer y cystadleuthau canu ac adrodd. Roedd nifer o'r testunau, wrth reswm, yn adlewyrchu'r ffaith mai eisteddfod capel oedd hi, a gosodwyd testunau megis cofnodi unrhyw ddwy bregeth a draddodwyd yn y capel yn ystod oedfaon Rhagfyr, neu draethawd ar yr Ysbryd Glân a'i Waith. Ond yr oedd digon o amrywiaeth o fewn yr adrannau llên, gan gynnwys ysgrif ar Glannau seiont, telyneg ar y testun 'Dringo' ac englyn i 'Prysgol'.

Roedd dwy gystadleuaeth cân actol yn yr adran cerddoriaeth, ac mewn ardal oedd yn nodedig am ei bandiau prês, roedd tair cystadleuaeth offerynnau chwyth – dwy yn 'agored i'r byd' a'r llall yn gyfyngedig i aelodau ieuenctid Band Llanrug.

Yn yr adran gelf roedd testunau'r merched yn draddodiadol; gwneud cacen neu dorth frith a gwau a gwnïo, ond roedd angen i'r dynion wneud stôl dri-throed neu bâr o 'coat-hangers' pren.

Prin oedd yr hysbysebwyr o Lanrug yn y rhaglen, ond roedd nifer go helaeth o Gaernarfon, gan gynnwys dau fusnes sy'n parhau ar agor – Gray Thomas a Peppers. Diddorol oedd gweld mai fel tremofydd yr hysbysebid y gwasanaeth profi llygad.

Tybed beth ddigwyddodd i'r cyfansoddiadau buddugol yn yr eisteddfod honno?

Colofn llai nag arfer y mis hwn – a hynny'n bennaf oherwydd diffyg amser a phrinder ymateb.


Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon.

**(Ffôn: 01286 673515).**


FINE ART TRADE GUILD

**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**

**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**



**GWYNANT PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 650349**
**(0589) 899901**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO MOCHYN**
**AR GYFER POB ACHLYSUR**

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

# O SIAMBAR SELWYN

**MAE sawl blwyddyn wedi mynd heibio bellach ers y cyfnod pan fu'r cwis poblogaidd *Profi'r Pethe* ar y teledu. Yn wir, *Profi'r Prifeirdd* oedd y gyfres gyntaf, a chan i honno fod mor llwyddiannus cafwyd cytundeb i wneud nifer o gyfresi o *Profi'r Pethe*. Recordiwyd rhai yn Yr Wyddgrug a rhai yng Nghaerdydd, gyda Derec Llwyd Morgan fel cwis-feistr.**

Ychydig wythnosau yn ôl fe gynhaliwyd cwis llenyddol yng Nghaernarfon, gyda'r elw yn mynd tuag at Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau, ac ar gais cyfaill bûm yn chwilota am rai cwestiynau. Wrth lwc roeddwn wedi cadw'r holl gwestiynau a ddefnyddiwyd yn y cyfresi teledu – roedd y deuddeg cant o gwestiynau llenyddol yn dal i fod gen i, a nifer helaeth ohonynt yn ymwneud â'r Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnwys ambell ffaith ddiddorol am 'steddfodau a beirdd yn gyffredinol.

Wyddech chi fod Clwydfardd, a fu'n Archdderwydd am ddeunaw mlynedd, o 1876 i 1894 (record) wedi dringo i gopa'r Wyddfa ag yntau yn 84 oed. Bu'r bardd enwog, Siôn Wyn o Eifion yn glaf yn ei wely am dros hanner can mlynedd. Yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1891 fe gwympodd y babell yn ystod storm enbyd ac fe laddwyd un wraig yn y gynulleidfa.

Roeddwn i bob amser yn cysylltu Madam Adelina Pati â Chraig-y-Nos, a diddorol oedd canfod iddi gael ei geni yn Sbaen, addysgwyd hi yn Efrog Newydd a chafodd ei chladdu ym Mharis. Yr un mor ddiddorol oedd sylwi i Eluned Morgan (Patagonia) gael ei geni ar fwrdd llong ym Mae Bisce yn y flwyddyn 1870.

Mae pawb yn gyfarwydd â hanes trist Eisteddfod y Gadair Ddu 1917, ond nid oedd bardd y goron, Wil Ifan, yn bresennol i gael ei goroni chwaith. Doedd o ddim wedi cael gwybodaeth gan neb am ei fuddugoliaeth hyd nes iddo weld yr hanes yn un o'r papurau yr wythnos ddilynol.

A sôn am feirdd absennol, chafodd T. Gwynn Jones mo'i gadeirio am ei awdl, 'Ymadawiad Arthur' yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902. Fe gadeiriwyd Bereiah Gwynfa Evans yn ei le. Wrth gwrs, doedd y beirdd ddim yn cael gwybodaeth ymlaen llaw am eu llwyddiant y dyddiau hynny. Doedd T. H. Parry-Williams ddim yn gwbod am ei fuddugoliaeth ddwbwl yn Wrecsam 1912 pan aeth yno fel 'Congrinero' ar gefn ei feic.

Chafodd T.H.P-W. mo'i goroni ar achlysur ei ail ddwbwl ym Mangor yn 1915 chwaith. Ei dad a goronwyd yn ei absenoldeb. Tybed a oedd o wedi clywed sibrydion mai beirniadaeth wael oedd ar ei bryddest 'Y Ddinas', a bod un o'r beirniaid, Eifion Wyn, am atal y goron.

Dyma feirniadaeth Eifion Wyn – *'Ni thrig dim da yn ei Ddinas. Anobaith sydd yn ei phyrth ac anfoes yn ei phalasau. Chwiliais hi yn fanwl, a theml ni welais ynddi, na ffydd, na chariad, na hawddgarwch. Nid yw ei chynnwys yn llednais, na'i dysg yn ddiogel, na'i thôn yn ddyrchafedig; ac am hynny ni fedraf fi ei dyfarnu yn deilwng o urddas Coron Eisteddfod Genedlaethol Cymru.'*

Diddorol sylwi fod testun y Goron yn agored ym Mangor 1915. Cerdd heb fod dros 800 o linellau – gwobr £20 a Choron. Dyma rai o'r testunau a ddewisodd y beirdd: 'Suddiad y Titanic', 'Mam yr Iesu', 'Hywel Harris', Sêr y Nos', 'Pwyll Pendefig Dyfed', ac ia, coeliwch neu beidio, roedd 'na un bardd wedi canu cerdd o tua mil o linellau ar y testun 'Yr Het'. *'Doniol,'* meddai'r beirniad, *'ond cerdd ynfyd.'* Ond coeliwch neu beidio eto, fe ymddangosodd yr un gerdd chwarter canrif yn ddiweddarach yn Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar 1940, a Cynan, un o'r beirniaid, yn ei gosod yn y dosbarth cyntaf. Rhyfedd o fyd ydi'r byd eisteddfodol.

Mae'n wir i un prifardd fod yn chwarae 'croci', o bopeth, pan alwyd arno i sefyll ar ei draed yn Eisteddfod Genedlaethol Aberhonddu 1899. Dyfed oedd y bardd absennol y tro hwn, ar achlysur ennill ohono ei drydedd cadair genedlaethol.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1921 enillodd Cynan ei Goron Genedlaethol gyntaf, ac yn codi, na, dim ar alwad y corn gwlad, ond i seiniau nodau ar y piano. Hon oedd 'Steddfod 'Mab-y-Bwthyn'. Fedrwch chi feddwl am Cynan, o bawb, yn codi i nodau'r piano. Roedd 'na rywun wedi anghofio mynd â'r corn gwlad i'r Orsedd.

Bodau rhyfedd yw beirdd. Dywedir i'r Bardd Cocos anfon gair at y Frenhines Victoria gan gynnig ei phriodi. Gwrthod 'nath hi yn ôl pob hanes. Dyna Royal Wedding fyddai honno wedi bod.

Gall y 'Steddfod fod yn lle eithaf peryglus. Yn ystod Seremoni'r Cadeirio yn Eisteddfod y Drenewydd 1965 (pan gadeiriwyd W. D. Williams) roedd plismyn yn chwilio am fom o dan y llwyfan. Cyn hynny, yn Eisteddfod Machynlleth 1937, derbyniodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith y teligram canlynol:

*'The aerodrome was set on fire, the powerhouse was set on fire, and the pavillion will be set on fire to-night.'*

Ia, rhyfedd o fyd ydi byd y beirdd. Byd peryglus ar brydiau yn ogystal.

Un cwestiwn diddorol i gloi. Pa Archdderwydd oedd yn gaeth i 'snyff'? Wel, y bardd a glywodd fand yn mynd heibio ei dŷ un prynhawn yn canu 'Gwŷr Harlech', ac fe'i symbylodd i ganu awdl ar y testun 'Harlech', a gipiodd gadair Eisteddfod Wrecsam iddo yn 1933. Ei enw: Edgar Phillips, sef Trefin.

Gobeithio y bydd Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau yn eisteddfod heddychlon, ac y bydd y beirdd a'r llenor buddugol yn bresennol i gael eu anrhydeddu, ac na fydd neb wedi anghofio dod â'r cyrn gwlad i Barc y Faenol.

* * *

*O.N. Mae croeso i unrhyw Gymdeithas neu Glwb sy'n awyddus i gynnal noson o gwis llenyddol fenthyca'r cwestiynau.*

# Clwb Eryri

Bardd y noson yng nghyfarfod Clwb Eryri a gynhaliwyd nos Wener, Chwefror 4ydd oedd Wyre Thomas, y Waunfawr. Cyflwynodd gerdd addas iawn ar gyfer eleni, sef 'Edrych 'nôl ar drothwy Pen-blwydd y Clwb yn hanner cant'. Yn ystod y noson, trafodwyd awgrym gwerthfawr Wyre sef bod pob aelod yn ei dro yn cyfrannu drwy dreulio tua pum munud yn cyflwyno ei hoff gerdd neu drafod rhyw agwedd amrywiol o gerdd a chelf, cân a chrefft, heb anghofio agweddau o ryfeddodau gwyddoniaeth a thechnoleg.

Cyflwynwyd siradwr y noson, sef Dei Tomos, yn fyr ac i bwrpas gan Huw Price Hughes. Mewn sgwrs hynod o ddifyr, llwyddodd Dei i grynhoi hanes y morwr, yr anturiaethwr a'r mapiwr Robert FitzRoy a aned yn 1805. Nododd Dei bod enw'r gŵr hwn yn ymddangos mewn sawl man drwy'r byd, gan gynnwys un o bonciau chwarel y Penrhyn. Wrth sôn am yrfa FitzRoy yn y llynges, tynnodd y siaradwr ddarlun byw iawn o fywyd caled y morwr ddwy ganrif yn ôl yn ystod mordeithiau hirfaith ar draws y byd. Am gyfnod, bu'r gwyddonydd enwog Charles Darwin yn gydymaith iddo a bu dadlau brwd rhyngddynt am ddamcaniaethau enwog Darwin. Bu FitzRoy hefyd yn aelod seneddol, yn llywodraethwr Seland Newydd ac yn un o sefydlwyr y swyddfa dywydd genedlaethol. Bu farw yn 1865.

Wedi trafodaeth ddifyr ac amrywiol o'r llawr, diolchodd Geraint Huws Roberts yn gynnes iawn i'r siaradwr am yr holl wybodaeth newydd ac am agor llygaid yr aelodau i hanes y gŵr hynod hwn.

Wrth gloi cyhoeddodd y llywydd, Ralph Jones, y bydd y Cinio Gŵyl Dewi yn cael ei gynnal ar nos Wener, 4 Mawrth 2005 am 7.00 o'r gloch a'r siaradwr gwadd fydd Norman Closs Parry, Treffynnon.


**Fframia** Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW

KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau

Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol

Profiadol

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCH. Dymuna Mr Hefin Jones, Crud yr Awel, 37 Stad Glanffynnon, Llanrug, ddiolch i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am y llu cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd. Hefyd i feddygon a staff Ward Ogwen a'r Uned Gofal Arbennig, Ysbyty Gwynedd, Bangor am eu gofal diffuant.

PRIODAS. Pob dymuniad da i Merfyn Hughes, Clawdd Newydd a Rhiannon Roberts (Hyfrydle gynt) ar eu priodas yn ddiweddar.

BRYSIWCH WELLA Rhian Whiteside Thomas, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, a hefyd Mrs Ceridwen Williams, 22 Hafan Elan. Gwellhad buan i chwi ac i unrhyw un arall sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD HAPUS iawn i Mrs Maggie Lewis, Madryn, fe ddathlodd ei phen-blwydd yn 98 oed yn ystod y mis.

DIOLCHIADAU.

DYMUNA Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Diolch yn arbennig i'r teulu a ffrindiau ac i Selwyn a Betty. Diolch yn fawr.

DYMUNA Margaret ac Elen a theulu y diweddar Ianto, 7 Afon Rhos, ddiolch i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau ac am y rhoddion hael a'r galwadau ffôn.

Diolch i'r Parchedig Dafydd Hughes, y Parch John Pritchard ac i Dafydd Glyn Jones am y deyrnged.

DYMUNA Meryl a Frank Green a'r teulu a Mrs Sheila Davies, Pen-y-groes, ddiolch o galon i gyfeillion, cymdogion a chydweithwyr yn ardal yr Eco am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yr oedd yr ymweliadau, negeseuon ffôn, cardiau a blodau yn gysur mawr. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael i Ward Beuno, Ysbyty Gwynedd.

PROFEDIGAETH.

CYDYMDEIMLWN yn arw â theulu Mrs Ella Jones, Y Bwthyn, Ffordd yr Orsaf, a fu farw yn 88 oed. Bydd colled fawr i'r plant, yr wyrion, wyresau, gor-wyrion a'r gor-wyresau.

BU FARW Mr Davies, Pen-y-groes, tad annwyl i Meryl a Frank Green, Annedd Wen, Pontrug, a thaid annwyl i Rhian, Ieuan a Siân. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

LLONGYFARCHIADAU i Eifion a Gwyneth Evans, 18 Glan Moelyn, ar ddathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol. Pob dymuniad da i chwi.

PWYLLGOR EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Mae aelodau o'r Pwyllgor yn mynd o dŷ i dŷ y mis yma i dderbyn cyfraniadau at yr Apêl. Hyd yma mae'r gefnogaeth yn arbennig iawn.

Gweithgaredd mis Mawrth fydd Noson Gymdeithasol yn cynnwys Cinio Tri Chwrs yng nghwmni 'Aderyn Prin' yng Ngwesty Seiont Manor. Mae tocynnau ar gael gan Menna Williams, Minffordd (674016) neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

CROESO. Pob dymuniad da a chroeso mawr i dair merch fach newydd i Emyr a Nia, Afon Rhos. Deallwn fod pawb wedi gwirioni, a mwy na llond llaw i Taid a Nain!

PROFEDIGAETH. Bu farw dau ŵr arbennig yn ystod y mis yma, sef Brian Pitts (Caerweddys) gynt, a David Blundell, (Afon Rhos) gynt. Roedd y ddau yn dioddef o 'Downs' ond wedi byw yn hapus yn Frondeg, Caernarfon, dan ofal caredig y staff.

Y SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr y Clwb Cant am Ionawr: £20: Mrs B.P. Jones, d/o Hafan Elan; £7: Mrs G. Roberts, Hafle; £5: Mrs C. Griffiths, Tan y Fron, Lôn Groes.

Enillwyr mis Chwefror: £20: Mr M. Jones, 21 Rhos Rug; £7: Mrs C. Williams, 25 Hafan Elan; £5: Mr A. Jones, 12 Hafan Elan.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 11 Ionawr. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Eryl, y llywydd. Cyhoeddwyd fod Mrs Jones, Y Dalar Deg wedi rhoi rhodd o £20 i'r gangen. Mae Ann Lloyd wedi cytuno i drefnu'r caffi yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar 26 Chwefror. Gofynnwyd i'r aelodau roi hen deliffonau symudol i Margaret Parry a bydd yr arian a dderbynir amdanynt yn mynd tuag at hyfforddi cŵn tywys.

Y gŵr gwadd oedd J. Elwyn Hughes, brodor o Fethesda, cyn Brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen, cyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Iaith ac awdur *Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu.* Testun ei ddarlith oedd 'Bro a Bywyd Caradog Prichard'. Roedd gan Elwyn nifer o sleidiau o'r ardal a oedd yn adlewyrchiad o fywyd yn nau ddegawd cyntaf yr ugeinfed ganrif. Adroddodd ambell hanesyn diddorol megis mai yn Ysbyty'r Chwarel y defnyddiwyd ether fel anasthetig mewn llawfeddygaeth am y tro cyntaf erioed, a hynny ym 1847. Dangosodd luniau o Stryd Fawr Bethesda gyda'r siopau, tafarndai a chapeli ynghyd â nifer o gymeriadau, rhai ohonynt yn ymddangos yn *Un Nos Ola Leuad.*

Paratowyd y baned gan Nan, Julie a Linda ac enillwyd y raffl gan Eileen.

* * *

Cynhaliwyd cyfarfod y mis hwn ar 8 Chwefror yn y Ganolfan. Ar ôl y croeso estynnodd Eryl, y llywydd, ein cydymdeimlad â Meryl ar farwolaeth ei thad; hefyd darllenodd lythyr ganddi oedd yn mynegi ei diolchgarwch am y llu ymweliadau, cardiau a rhoddion a dderbyniodd.

Rhoddwyd sylw i'r daith feicio o Borthaethwy i Gaerdydd gyda'r elw yn mynd tuag at Diabetes Cymru. Eleni testun cystadleuaeth Gwyneth Evans yw perfformio hysbyseb gwreiddiol. Cymerodd Beryl ran yn y Distawrwydd Noddedig ym mis Ionawr ac ar 27 Mai cynhelir bore cofi yn Festri Capel Ebeneser gan yr is-bwyllgor Anabl.

Ar nos Wener, 18 Mawrth, cynhelir swper yng ngwesty Seiont Manor gyda'r grŵp Aderyn Prin yn diddanu, a bydd yr elw yn mynd at Bwyllgor Apêl Lleol Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, tocynnau gan Menna a Meryl.

Y gŵr gwadd oedd Richard Jones, Caeathro. Roedd wedi paratoi cwis a'r dasg oedd adnabod nifer o adeiladau tref Caernarfon ar ôl gweld rhannau ohonynt ar sleidiau. Nid tasg hawdd o bell ffordd ac ar y diwedd enillydd gwobr y noson, sef llun o waith Richard, oedd Eryl. Aeth y wobr gysur, map o Gaernarfon, i Margaret. Yn ogystal cafodd pawb gyfle i weld albwm o enghreifftiau o waith ffotograffiaeth Richard. Bu'n noson ddiddorol ac o hyn allan bydd pawb yn cymryd llawer mwy o sylw o'r adeiladau hynod ddiddorol sydd yn y dref.

Paratowyd y baned gan Carrie, Megan a Beryl ac enillwyd y raffl gan Margaret.

Yn y cyfarfod nesaf, ar 8 Mawrth, cynhelir Noson Caws a Gwin yng nghwmni Margaret Davies.

YR YSGOL GYNRADD.

Chwaraeon. Aeth tîm pêl-rwyd yr ysgol i Ganolfan Hamdden Plas Silyn Pen-y-groes i gymryd rhan yn Nhwrnament Pêl-rwyd Ysgolion Arfon. Chwaraeodd y tîm yn dda a chyrraedd y gêm gyn-derfynol. Da iawn chi a llongyfarchiadau, genod.

Croesawn Mrs Meinir Williams atom i'r ysgol. Mae wedi setlo yn y dosbarth Derbyn ble mae'n dilyn cwrs cymhorthydd a gofal plant.

Daeth Nyrs Alison Papadakis i'r dosbarth Derbyn i sgwrsio gyda'r plant am ei gwaith fel nyrs. Pwysleisiodd mor bwysig yw inni fwyta yn iach er mwyn tyfu'n gryf. Diolch iddi am roi ei hamser i ddod atom.

Yr Urdd. Pob hwyl i aelodau'r Urdd sy'n cystadlu, yn unigol ac mewn partïon, yn yr Eisteddfodau Cylch.


## RYGARUG

Mae RYGARUG, y cynllun perfformio celfyddydol i blant, yn chwilio am berson brwdfrydig ac egnïol i fod yn

**WEINYDDYDD RHAN AMSER**

yn ystod tymor yr haf.

Mae RYGARUG hefyd yn chwilio am ddau

**DIWTOR DRAMA RHAN AMSER,**

ac un **TIWTOR DAWNS,** i gynnal gweithdai wythnosol gyda phlant rhwng 7 a 15 oed.

Prif ddyletswydd y tiwtoriaid fydd gweithio ar sioe lwyfan 'COPA CABAN' sydd i'w pherfformio yn ystod Eisteddfod 2005.

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Audra Roberts ar **(01286) 677802.**

Dyddiad cau: 21 Mawrth 2005.



## CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb oddi wrth unigolion fyddai'n dymuno torri gwair yn ardal Cyngor Cymuned Llanrug. Bydd y gwaith yn cynnwys Mynwent Llanrug a Chaeau Chwarae oddi fewn y gymuned.

Am ragor o wybodaeth cyslltwch â Bethan Owen (Clerc) ar (01286) 650 770.


# CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon Ceunant (650799)

Profedigaeth. Dymuna Mrs Mair Davies, Tan y Graig, Ceunant ac Eleri a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt fel teulu yn eu profedigaeth o golli nith a chyfnither annwyl yn ddiweddar. Medwina Rowlands (Grewe).

## CYNGOR CYMUNED LLANRUG

**Mynwent Llanrug**

Mae'r Cyngor wedi bod yn awyddus ers cryn amser i wella'r sefyllfa parcio yn y fynwent er mwyn gwneud lle i nifer fwy o gerbydau yn ogystal â lle i gerbydau droi i adael y fynwent. Mae cais diweddar am grant i Gronfa Gwella Gwynedd i ymgymryd â'r gwaith wedi bod yn llwyddiannus; a chyda hawl cynllunio llawn wedi ei dderbyn mi fydd y gwaith yn dechrau ddiwedd mis Chwefror am gyfnod o hyd at chwe wythnos. Hyderir na fydd y gwaith adeiladu yn achosi unrhyw anghyfleuster i ymwelwyr â'r fynwent.

**Swyddog Rhawd Cymunedol**

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o gwynion /sylwadau yn ystod y misoedd diwethaf ynglŷn â'r sefyllfa yn y gymuned fin nos, yn enwedig ar nos Wener a nos Sadwrn. Mae nifer helaeth o drigolion y gymuned yn gefnogol o'r hyn a wnaeth y Swyddog Rhawd Cymunedol pan ddechreuodd ar ei waith rai misoedd yn ôl, ac hefyd o'r farn fod ei bresenoldeb yn y gymuned wedi gwneud gwahaniaeth. Yn anffodus mae'r Swyddog Rhawd Cymunedol wedi bod yn absennol o'i waith ers rhai misoedd a theimlir fod y sefyllfa bellach wedi dirywio yn ofnadwy. Mae'r Cyngor mewn cysylltiad â'r Heddlu i geisio datrys y sefyllfa.

**Cyflymder traffig yn y Gymuned**

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o gwynion yn ystod y misoedd diwethaf ynglŷn â chyflymder traffig yn gyffredinol, ond yn enwedig rhwng Llanrug a Chwm y Glo ac ar Allt Ceunant ble mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd yn ddiweddar. Mae'n anodd a pheryglus iawn i gerbydau adael stad Dolafon a phentref Cwm y Glo oherwydd cyflymder y traffig. Deallir gan y Cyngor bod yr Heddlu yn monitro'r sefyllfa ac y byddant yn ystyried awgrym y Cyngor i ostwng cyflymder y traffig o 60 i 40 milltir yr awr o Llanrug ac ar hyd lôn osgoi Cwm y Glo.

**Lloches Bws yng Ngwm y Glo**

Mae'r Cyngor yn ystyried gosod lloches bws ym mhentref Cwm y Glo, a gwahoddir sylwadau gan drigolion y pentref ynglŷn â'i leoliad. Mi fyddai Cynghorwyr Cymuned ardal Cwm y Glo, sef Cyng Delyth Hughes, Cyng Avril Jones, Cyng Brian Jones â'r Cyng Geraint Jones yn falch iawn o glywed gennych.

**Cae Chwarae (ger Nant y Glyn)**

Mae'r Cyngor yn falch o glywed bod Pwyllgor Cae Chwarae Nant y Glyn wedi derbyn grant sylweddol i wella'r cyfleusterau yn y cae chwarae a bod y gwaith ar fin dechrau.

**Cŵn yng Nghaeau Chwarae y gymuned**

Mae'r Cyngor yn bryderus iawn fod pobl yn cerdded eu cŵn yn nghaeau chwarae Llanrug a Chwm y Glo ac yn gadael baw ci ar eu hôl. Mae cŵn wedi cael eu gwahardd o'r caeau chwarae ar sail peryglon iechyd i blant. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae aelodau'r Cyngor wedi bod yn dosbarthu llythyrau i atgoffa trigolion o hyn. Parhau mae'r arferiad ac felly bydd rhaid ystyried pa gamau a ellir eu cymryd yn erbyn perchnogion sy'n fwriadol yn mynd â'u cŵn i gaeau chwarae.

Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch Cynghorydd Cymuned neu Bethan Owen (Clerc) ar (01286) 650 770.

# Capel, Rhaeadr a Chasino

Yr haf diwethaf gwahoddwyd fy ngŵr a minnau i aros at deulu yn Oshawa, tua 60 milltir o Toronto.

Y bore Sul cyntaf aethom i Gapel Dewi Sant. Capel modern iawn mewn cornel dawel yn y ddinas. Ar ôl y bregeth cawsom wledd yn gwrando ar Gôr Merched Dewi Sant a sgwrs a phaned wedyn yn y galeri. Roedd llawer o'r Cymry Cymraeg wedi ymfudo yno yn y 60au. Un o'r rheiny oedd Y Parch Ddr Heddwyn Williams a oedd wedi ymgartrefu ger Llyn Ontario. Roedd nifer o deuluoedd ifanc yn yr oedfa hefyd, hwythau wedi gwneud eu cartref yno ers dros ugain mlynedd ac wedi dwyn eu plant i fyny yn yr heniaith. Roedd eu Cymraeg mor rhugl ag unrhyw un ohonom o Gymru – heb golli'r acen Gymraeg o gwbl. Bron na fuasech yn meddwl mai mewn capel bach gwledig yng Nghymru oeddech chi.

Yn ystod yr ail wythnos cawsom brofiad bythgofiadwy o drafeilio i lawr i dref Niagara – aros yno am ddwy noson a gweld rhyfeddod y Rhaeadr anferth – y ffenomenon naturiol nad oeddem o'r blaen ond wedi darllen amdano neu weld ei lun. Roeddem yn medru sefyll o fewn ychydig lathenni iddo ac roedd yn wefreiddiol cael mynd ar y cwch 'Maid of the Mist' a ddaliai yn agos i gant o bobl, yn ein cotiau glaw arbennig. Ar y chwith inni roedd Rhaeadr yr Unol Daleithiau, a phetaem wedi trafeilio heibio i hwn caem ein hunain yn Efrog Newydd. Yn syth o'n blaen – y Rhaeadr mawr ei hun ar ffurf pedol.

Roedd gwledd arall yn ein haros y noson honno – syrpreis oedd hwn! Tua hanner nos aeth y teulu â ni i lawr i'r dref eto a gweld y rhaeadr yn ei ogoniant – wedi'i oleuo – a newidiai'r lliwiau bob hyn a hyn i bob lliw o'r enfys. 'Laser' o dŵr uchel gyferbyn â'r rhaeadr oedd yn taflu'r lliwiau, a hynny bob nos rhwng un ar ddeg ac un o'r gloch y bore. Diwedd bendigedig i ddiwrnod arbennig iawn.

Tra roeddem yn nhref Niagara, roeddwn wedi sôn y buaswn yn hoffi gweld Casino. Dyma *'culture shock'* gwirioneddol, yn enwedig i rywun fel ni'n dau o gefn gwlad Cymru. Bu'n rhaid newid, wrth gwrs, i ddillad mwy addas na dillad 'gwyliau'. Cyrraedd y casino anferth gyda Gwesty pum seren uwch ei ben, lle roeddech yn suddo i'r carped moethus. Y cwbl a welech oedd byrddau hap-chwarae roulette, black jacks a channoedd o beiriannau 'slot' – roedd o leiaf 1000 neu fwy o'r rhain a phob un wedi'i fynychu – temtasiwn i wagio'ch pocedi o bob cyfeiriad. Y bobl wedyn yn llifo o ffwr a diamwntiau. I gael ail-edrychiad o gwbl, buasai'n rhaid ichi fod 'yn un o'r cyfoethogion hynny'! Un peth a'n trawodd. Roedd posteri ar y muriau o gwmpas (ond ddim mewn print bras) hefo'r geiriau *Please ... Phone if you need counselling/help with your gambling habit/problems!!*

Gawson ni 'flutter bach'? Wel do, wrth gwrs, ac ennill? ... Digon i brynu dwy gwpaned o goffi!

Em. H.

# Cam Ymlaen: **Emily Hughes**

Trig ar dyddyn yng Nghaeathro, ger Caernarfon. Yn gyn-athrawes yn Ysgol Gynradd Bontnewydd, mae nawr yn awdures enwog llyfrau plant a chyfieithydd, gyda 300 o deitlau i'w henw, yn cynnwys gweithiau Beatrix Potter a J. K. Rowling. Mae llyfr diweddaraf Emily, *ECO*, yn archwilio themâu amgylcheddol sy'n adlewyrchu ei diddordeb hi ei hun yng nghefn gwlad. Mae newydd orffen ei ddilyniant, *Carreg Ateb*. Mae hi'n codi'n 63 y mis nesaf.

* * *

**Rhagoriaeth Byw yn y Wlad?** 'Does ragorach braint na gweld ŵyn yn amlwg yn y caeau bob gwanwyn. Ganed fi yn y tŷ hwn felly cefais y fraint yna am ragor na 60 mlynedd. Merch tyddynnwr wyf fi, a chadw anifeiliaid fu'n dull o fyw erioed. Ni allaf wneud dim amgen. Fel yr heneiddiaf rhaid cydnabod fy nherfynau: nid oes gennyf wartheg Jersi na defaid Suffolk, er y cadwaf ieir a derbyn ŵyn amddifaid gan gymdogion i'w maethu i lawn iechyd.

**A'r anfantais?** Fy nghymdogion nesaf yw llwynogod, ac ymddengys eu bod yn ystyried fy lle i fel rhyw fath o 'gaffeteria'. Mae nhw mor eofn ag ymweld â mi gefn dydd goleu: dydyn nhw ddim digon manesol â diflannu pan welan' nhw fi.

**Athroniaeth tuag at anifeiliaid?** Ni chredaf y dylent ddioddef i brofi eich bod yn eu caru.

**A Car?** Vauxhall Diesel Estate.

**Pwy sy'n peri i chwi chwerthin?** Mwynheais ddysgu am fod synnwyr digrifwch plant mor ogleisiol.

**Pennaf ddanteithion.** Brechdan gaws a phicl neu farmalêd. Pan wyf ynghlwm wrth fy nesg, ac angen ysbrydoliaeth, rhydd i mi'r 'sbardun' perffaith.

**Casbeth?** Darllen llyfr ail-law i ganfod yr ychydig ddalennau olaf ar goll.

**Pwy hoffech gyfarfod?** J. K. Rowling. Ysgrifennais 300 llyfr ond rhywfodd cysylltir fi bob amser â chyfieithu llyfrau Harri Potter i Gymraeg. Ond yr oedd yn fraint ac anrhydedd am yr edmygaf ei gwaith.

**Hoff anifail anwes?** Fy Labrador Euraid – Ned Oscar Huws, sydd i gael llyfr wedi ei gyhoeddi yn ei enw yn o fuan.

**Hoff yrfa amgen?** Nyrs anifeiliaid neu weithiwr amaethyddol. Dymunwn hefyd allu tynnu lluniau neu gartwnau. Ni allaf arlunio am 'gyfleth' a charwn allu cynhyrchu lluniau i gyd-fynd â'r geiriau yn fy meddwl.

**Hoff Lyfr?** Yn blentyn, fy hoff awdures oedd Elisabeth Watkin Jones, yn enwedig *Plant y Mynachdy* a'i nofel enwog *Luned Bengoch*, a ddarllenaf o bryd i'w gilydd.

**Achlysur Balchaf?** Enillais Wobr Tir Na-nOg ddwywaith am lenyddiaeth plant ond fy mhennaf anrhydedd oedd ennill Gwobr Goffa Mary Vaughan Jones am lenyddiaeth plant yn 1988. Nid yn unig am ei bod yn awdures a edmygaf a pharchaf yn fawr, ond hefyd roeddwn yn ddigon ffodus i fod yn un o'i myfyrwyr yn y Coleg Normal ym Mangor.

**Pennaf Embaras?** Flynyddoedd maith yn ôl codais un bore i odro fy muwch Jersi. Roedd yn gynnes ac yr oeddwn yn dal yn fy ngwisg nos. Tra roeddwn allan pwysodd fy labrador, Caspar, ei bawen fawr yn erbyn drws fy nhŷ, gan fy nghloi allan. Bu raid i mi groesi ffordd fawr i ofyn i gymydog ddod a'i ysgol fel y gallai fynd i mewn trwy ffenestr y llofft.

*ECO* gan Emily Huws, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion.

*(Trosiad o'r Daily Post 10.02.05 R. Williams, Llain Gwta, Llanrug)*


**R. L. DAVIES**
Coed Bolyn Mawr, Bethel
JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360° newydda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion
**(01248) 671300** neu **(07775) 638620**

**GORSAF BETROL**
**Esso BERAN**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: (01286) 871521**
**Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod**
**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo**
**Cylchgronau • Papurau Newydd**
**Cardiau Penblwydd • Wyau**
**Nwyddau Groser • Melysion**
**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**
**Ffôn/Ffacs: (01286) 650291**

**Ar Agor**
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
**Ar Gau**
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites.*
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.*
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?
**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD ERYRI. Roedd gan y Trysorydd newyddion arbennig i'r pwyllgor yn y cyfarfod olaf. Braf oedd cyhoeddi fod y gweithgareddau a'r casgliad ardal wedi ein galluogi i fynd heibio'r targed penodol o £3,010. Yn cynnwys yr arian 'ychwanegol' a gynhyrchwyd drwy'r ymdrech dreth, y mae'r cyfanswm erbyn hyn yn £800 dros y nod. Mae hyn yn ganmoladwy iawn. Yn amlwg roedd yr amrywiaeth gweithgareddau wedi apelio, ac mae'r pwyllgor yn diolch am y gefnogaeth barod. Ar y noson cyfrannodd y Cadeirydd £100 o werthiant y daflen *Cerddi'r Prentis* (mae copïau yn dal ar werth) a chyfraniad o £50 gan y Clwb Snwcer.

Yn y dyfodol agos y prif weithgaredd fydd dychweliad y cwisiau poblogaidd. Byddant yn cael eu cynnal ar saith nos Fawrth yn olynol, gyda phob un yn cychwyn am 8.30. Y tâl am gystadlu yn y nosweithiau hwyliog yw £1 yr un. Beth am hel tîm am noson gymdeithasol. Y dyddiadau pwysig yw:

Chwefror 22: Y Bedol
Mawrth 1: Gors Bach
Mawrth 8: Y Bedol
Mawrth 15: Gors Bach
Mawrth 22: Y Bedol
Mawrth 29: Gors Bach
Ebrill 5: Y Bedol

Bydd y cwis olaf ar Ebrill 5 yn Gwis Chwaraeon. Gobeithio y bydd gwahanol glybiau yr ardal yn hel timau.

Y bwriad yw ail gynnal y digwyddiadau poblogaidd a roddodd gychwyn i'r ymgyrch yn ystod yr haf diwethaf. I gloi'r gweithgareddau, os gellir rhoddi rhaglen amrywiol at ei gilydd, bwriedir cynnal Cyngerdd Diolch yn cynnwys talentau'r ardal. Digon i edrych ymlaen ato felly, a chyfle gwych i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yn ystod ei chyfnod o angen.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth nifer dda o aelodau i gyfarfod y mis yma yn Festri Bethel (A) yn ddiweddar. Geraint Percy Jones, Bangor, oedd y gŵr gwadd, ac ar ôl y croeso arferol gan Jenkin Griffiths, cafwyd sgwrs hynod o ddifyr ganddo yn sôn am bererindod, gyda'i wraig, i Santiago de Compostella yng ngogledd Sbaen, a hynny ar gefn beiciau. Roedd wedi dod â phentwr o sleidiau ac wrth sgwrsio roedd yn gallu dangos y llefydd diddorol roeddent wedi ymweld â hwy. Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri'r Cysegr yng nghwmni William Vaughan Jones, Pontllyfni, ar 15 Mawrth.

CLWB BRO BETHEL. Cyfarfu'r aelodau i gyfarfod Chwefror yn Festri'r Cysegr o dan lywyddiaeth Goronwy Jones. Y gŵr gwadd oedd Collwyn Williams a chafwyd ganddo sgwrs ddiddorol yn olrhain hanes ei ymlyniad, dros y blynyddoedd, gyda'r Gwasanaeth Tân. Aeth ymlaen wedyn i drafod gyda'r aelodau y pwysigrwydd o ofalu am bob agwedd o ddiogelwch yn y tŷ. Talwyd y diolchiadau gan Jenkin Griffiths.

## Ddaw y 'Bedol' a Lwc?

Tymor o sefydlu ei hun fu hi i dîm pêl-droed Bethel yng Nghynghrair Gwynedd eleni ac maent yn gyfforddus yng nghanol y tabl ar hyn o bryd. Yn ystod y tymor bu nifer o'r gemau a gollwyd yn rhai clos, gyda'r gôl dyngedfennol yn dod yn aml yn hwyr yn y gêm. Anaml, serch hynny, y cafwyd cweir. Y mae argoelion hefyd fod ambell chwaraewr addawol yng ngharfan dan 17 y pentref. Gobeithio y byddant yn bwydo trwodd i garfan hŷn yn y dyfodol agos. Diolch i Maldwyn ac Ian am eu gwaith gyda'r hogia.

Erys o hyd y saga ynglŷn â'r cae – bron at syrffed. Yn amlwg mae dyhead i gael maes yn y pentref. Dyma'r darn allweddol olaf yn y cynllun datblygu. Oddi ar y cae rhaid canmol gwaith caled y pwyllgor ffyddlon. Y mae'r chwaraewyr yn hynod ffodus o gael criw mor frwdfrydig tu cefn iddynt.

Yn yr un modd y mae'r Bedol wedi dod yn rhyw 'ganolfan' answyddogol i'r clwb. Ceir croeso cynnes yno wedi'r gemau cartref a phawb yn ddiolchgar o'r pryd cynnes, yn enwedig ar ôl rhedeg neu wylio ar faes gwyntog Brynrefail. Y mae nawdd Kevin a Carolyn Johnson yn gefn i'r clwb ac yn ddiweddar cyflwynwyd set arall o grysau ganddynt i'r chwaraewyr. O gofio cost dillad chwaraeon erbyn hyn, mae'r clwb yn ddiolchgar iawn am y rhodd.



*Michelle Johnson yn cyflwyno crys i Joanthan Newell, capten y tîm.*


*Tîm hŷn Bethel yn y crysau newydd.*

Annwyl Olygydd,

Mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn benderfynol o ail fandio tai yng Nghymru eleni. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwrthwynebu'r ail fandio hwn yn gyson. Trefnwyd deiseb gan Grŵp Plaid Cymru a chyflwynwyd y ddeiseb honno i'r Llywodraeth gan gadeirydd y Cyngor ar y pryd, y Cynghorydd Wyn Williams. Derbyniwyd rhybudd o gynnig gerbron y Cyngor yn gwrthwynebu yr ail fandio ac yn galw am sefydlu system decach i dalu'r dreth wedi ei sylfaenu ar y gallu i dalu ac nid ar werth eiddo. Anfonwyd ymateb llawn i'r ymgynghoriad ar ail fandio. Penderfynodd Llywodraeth Rhodri Morgan anwybyddu'r cyfan.

O ganlyniad bydd 37% o drethdalwyr Gwynedd yn darganfod fod eu heiddo yn codi un band neu fwy eleni. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r trethdalwyr rheini dalu rhwng 12% a 22.5% yn fwy ar y dreth. I rywun fydd yn symud o fand D i fand E mae hynna o gwmpas £150 yn ychwanegol i'w dalu.

Mae Treth y Cyngor yn ei ffurf bresennol yn dreth annheg ac fe ddylid ei diwygio ac fe fydd aelodau Plaid Cymru yn dal i ddadlau fod angen newid y drefn. Ymddengys mai'r unig ffordd i newid y drefn yw gofalu, ymhen tair blynedd, ein bod yn ethol Llywodraeth dan arweiniad Plaid Cymru yn y Cynulliad, gan nad yw Llafur yn malio bellach am bobl gyffredin sy'n wynebu trethi trwm ar dai, nad ydynt yn gallu fforddio i'w talu.

Yn gywir

HUW PRICE HUGHES
CYNGORYDD PLAID CYMRU
BETHEL A SEION


# NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

LLONGYFARCHIADAU MAWR i Manon Pritchard, Fron ar basio ei arholiad telyn – dal ati!

PEN BLWYDD HAPUS i Owen Tudur, 1 Tan y Bryn gynt, ar gyrraedd ei ben blwydd yn 30!! Pob hwyl ar y dathlu!

BRAF GWELD Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon, yn ôl adref wedi llawdriniaeth yn ddiweddar. Brysiwch wella!


H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444

• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CROESO ADREF o Ysbyty Gwynedd i Deion, Tan-y-coed, wedi iddo gael triniaeth tynnu y pendics.

ENILLWYR CLWB 300 am fis Ionawr oedd £40: Mr Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant; £25: Mr Emrys Owen, Bryn Môr; £10: Mr W.M. Catt, Awel y Môr.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cafwyd pnawn difyr iawn yn y Sefydliad ar 3 Chwefror yng nghwmni y siaradwr gwadd: Mr Bleddyn Williams o Gaernarfon. Soniodd am yr hen farchnatwyr oedd yn y dref yn y 19fed a'r 20fed ganrif. Mae'n chwith meddwl fod y rhain bron i gyd wedi mynd. Roedd yr aelodau dieithr i'r ardal wedi synnu'n fawr wrth glywed yr hanesion, gan nad oeddynt yn adnabod Caernarfon fel yr oedd.

Diolchodd y llywydd, Catherine Jones, i Mr Williams. Rhoddwyd y raffl gan Menna McDaid a Hilda Williams oedd yr enillydd.

Ar 3 Mawrth y bydd y cyfarfod nesaf, yng nghwmni rhai o blant o Ysgol Waunfawr yn dathlu Gŵyl Dewi gyda ni. Croeso cynnes i aelodau newydd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Catrin ac Alun, Stad Croes y Waun ar enedigaeth eu hail fab, Osian, brawd bach i Gethin Rhun a Meleri, ac ŵyr bach i Jina Gwyrfai, Garmon., Stad Tŷ Hen.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Nellie Roberts, Stad Tref Eilian, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich

Anfonwn ein cofion hefyd at Christopher James, Y Dyffryn, sydd yn yr ysbyty wedi iddo ddisgyn droedfeddi i lawr clogwyn yn Dudley Park.

Yn yr ysbyty hefyd mae Rhiannon, Gwylfa. Anfonwn ein cofion ati hithau.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Arnold Roberts, 10 Bryn Golau adref o Ysbyty Gobowen; Mrs Llywela Davies, Tref Eilian; Mr Wyn Griffith, Ger y Nant a Robin, Bryn Gwylan adref o Ysbyty Gwynedd; a Catrin Thomas, Tref Eilian, adref o Ysbyty Glan Clwyd. Mawr obeithiwn y byddwch yn teimlo'n well ar ôl cael dod adref.

CASGLIAD. Anfonwyd siec o £560 i gronfa Apêl Tsunami De Ddwyrain Asia gan swyddogion Eglwys y Waun yn dilyn casgliad gan aelodau a ffrindiau yr Eglwys.

YR URDD. Bydd aelodau adran yr Urdd y pentref yn cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch ddiwedd y mis. Dymunwn yn dda iddynt. Gobeithio y bydd braich Gwenan, Stad Tŷ Hen wedi gwella ar ôl iddi ddisgyn oddi ar y si-so. Mae hi yn y grŵp Dawnsio Disgo.

DIOLCH. Dymuna Megan Elen Lowe a'i theulu, Ger y Ffynnon, Ael y Bryn, ddiolch o waelod calon i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn ei damwain o dorri ei braich ar Noswyl Nadolig. Diolch hefyd i holl staff yr ysgol am eu gofal arbennig. Diolch yn fawr iawn i bawb.

PLAID CYMRU. Mewn Cyfarfod Blynyddol o'r gangen yn ddiweddar, ail-etholwyd y canlynol: Cadeirydd: Norman Williams; Trysorydd: John Gwynedd; Ysgrifennydd: Rob Jones; Ysgrifennydd Aelodaeth: Beryl Jones. Yn ychwanegol etholwyd y canlynol fel aelodau o'r pwyllgor: John Glyn, Cadi Jones, Olwen Williams, Gill Wyn, Huw Ynyr, Iola Ynyr.

Y rhaglen ar gyfer 2005 fydd:

| | |
|---|---|
| Mawrth 5: | Cinio Gŵyl Ddewi; |
| Mehefin 10: | Helfa Drysor; |
| Medi 10: | Barbeciw; |
| Tachwedd 12: | Noson gyri. |


**Blodau Racca**

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU




**TAFARN BRYNGWNA**

**Caeathro**

Croeso mawr i bawb i'r **'Bryngwna'** yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch **(01286) 674568** i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw


# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**Athrawon Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen**



*(Cefn): Catherine Jones, Marie Larsen, Nansi Jones, Jean Parc Jones (Blaen): ? ; Olwen Lloyd Jones, Richard Jones (Prifathro); Miss K. Thomas, Mr Hanks.*

DIOLCH. Dymuna Les Larsen a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i'r cyfeillion a fynegodd eu cydymeimlad ym mhrofedigaeth y teulu o golli chwaer annwyl, sef Marie Larsen.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Rhagfyr 2004 oedd rhif 35, sef Mrs Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr.

Enillydd mis Ionawr 2005, rhif 35, oedd, **IE**, Mrs Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr. Llongyfarchiadau mawr i chi.

CYNHELIR BINGO PASG yn y Neuadd Gymuned, nos Wener, 18 Mawrth, am 6.30 yh. Diolchir i bawb am y gefnogaeth.

DEUNAW OED. Llongyfarchiadau i ti Haydn Jones, yn 18 oed ar 28 Mawrth. Pob dymuniad da i'r dyfodol, Haydn.

URDD ADRAN BENTREF. Pob dymuniad da i'r aelodau fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.

PWYLLGOR NEUADD. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol nos Lun, Ionawr 31. Darllenwyd Cofnodion 2004 ac fe'u cafwyd yn gywir. Cyfetholwyd tri aelod newydd i ysgwyddo'r baich. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a Chwefror, a'r enillwyr oedd:

*Ionawr*: Mrs A. Evans, 26 Bryntirion; Myfanwy Parry, Twelfa; Dafydd Ifans, Sycharth.

*Chwefror*: Elin Glyn, Erw Gain, Llanrug; Ann Jones, Ty'n Gerddi, Waun; Dylan Jones, Meillionydd.

Taer erfynnir am aelodau newydd i'r Clwb Cant – mae'n hwb sylweddol tuag at y costau ac i archebu anghenion ar gyfer y Neuadd Gymuned. Mae defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r Hysbysfwrdd newydd a gobeithir codi arian i gael golau y tu allan i'r brif fynedfa ar gyfer gweithgareddau gyda'r nos. Gellir ymaelodi â'r Clwb Cant drwy Archeb Banc, ar gael gan y Trysorydd, Dafydd Wiliams, Meini Gleision, Brynrefail neu gellir ymaelodi drwy aelod o'r Pwyllgor, 50c y mis neu £6 y flwyddyn. Gobeithir trefnu gweithgaredd Sêl Cist Car yn y misoedd nesaf.

YSGOL SUL BOSRA. Braf gweld cynifer o blant yn mynychu'r Ysgol Sul ac yn mwynhau'r gweithgareddau. Mae amser prysur o'u blaenau gyda'r amrywiol Gymanfaoedd. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Cwm y Glo, yng Nghapel Ebeneser Deiniolen ar bnawn Sul, 22 Mai am 2.00 o'r gloch.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid ym mis Mehefin.

CAPEL BOSRA. Fel Apêl i adnewyddu'r Capel dosberthir llythyrau yn apelio yn garedig am eich cefnogaeth i godi arian sylweddol.

Gellir cyfrannu unrhyw swm a'i anfon at un o'r swyddogion, Cadeirydd: Y Cynghorydd Pat Larsen; Ysgrifenyddion: Mrs Eluned Jones, Cae Corniog a Mrs Ffiona Jones, Tan y Ffordd; Trysorydd: Mr Arnold Jones, 1 Tai Arthur, Waun.

Bwriedir cynnal amrywiol weithgareddau i gasglu'r arian.

**PWYLLGOR APÊL CAPEL BOSRA**

**Cynhelir Cyngerdd**

**gyda**

**Chôr Meibion Dyffryn Peris a phobl ifanc y pentref**

**yn y**

**Neuadd Gymuned nos Iau, 10 Mawrth am 7.30 yh**

Pris: **Oedolion £3.00 Plant £1.50**

CROESO. Croesewir Kate a Ralph Rossiter o Rhiwlas atom i Llys y Gwynt. Mae Kate yn chwaer i Delyth, Pen y Gaer, ac felly bydd yn siŵr o setlo'n fuan. Mae nifer ohonom efo cysylltiadau â Rhiwlas, felly croeso mawr atom.

SGRIPT CYMRU – DRAMODWYR IFANC. 'Sgript Cymru yw cwmni ysgrifennu newydd Cymru ar gyfer y llwyfan. Rôl y cwmni yw darganfod, meithrin a hyrwyddo lleisiau newydd a chyffrous ar gyfer y llwyfan.' Llongyferchir Eurgain Haf, Sycharth, a Gwyneth Glyn, nith Myfanwy Parry, Tawelfa, a'r tri o ddramodwyr eraill, Dyfrig Jones, Caryl Lewis a Manon Wyn ar ffrwyth llafur eu dramâu 'Drws Arall i'r Coed' a berfformiwyd yn Theatr Gwynedd, Bangor ar 15 a 16 Chwefror. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da eto i'r dyfodol i bob un ohonoch.

ARLUNYDD IFANC. Llongyfarchiadau mawr i Magi Tudur, Llain y Werin (Tŷ'r Ysgol) ar ei champwaith yn ennill y brif wobr yng nghystadleuaeth Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd i rai dan 8 oed. Enillodd nifer o nwyddau am arlunio llun arbennig o Mair a Joseff. Da iawn ti, Magi.

# YSGOL BRYNREAIL

## Cymorth Ariannol

Y mae'r rhan fwyaf ohonom bellach yn gyfarwydd â mudiad Macmillan sy'n cynnig gwasanaeth amhrisiadwy i ddioddefwyr cancr a'u teuluoedd. Ynhytrach nag anfon cardiau Nadolig, gwahoddodd Macmillan ddisgyblion yr ysgol i gyfrannu at bosteri'n dymuno Nadolig Llawen i bawb. Gwnaed casgliad sylweddol o £350 a chyflwynwyd y siec i Cleo Devito o'r mudiad yn ddiweddar. Diolch o galon eto i bawb a gyfrannodd.



*Myfyrwyr y chweched dosbarth efo Mrs Cleo Devito.*

## Cystadleuaeth Traws Gwlad

Ddiwedd mis Ionawr aeth nifer o ddisgyblion yr ysgol i Ddyffryn Nantlle, Pen-y-groes i gymryd rhan mewn cystadleuaeth rhedeg.

Llongyfarchiadau i bawb a gwblhaodd y daith flinedig, ac yn enwedig felly i'r rhai hynny ddaeth yn y deg cyntaf:

Bl. 7: Esra Warren (1af)
Bl. 8: Victoria Taylor (2il); Katherinie Prydderch (8fed); Gethin Phillips (5ed); Iwan Arwel Jones (9fed).
Bl. 10 ac 11: Katy Williams (4ydd); Rhian Morris (6ed); Jaco Mullane (10fed).

Bydd Esra Warren a Victoria Taylor yn awr yn mynd yn eu blaenau i gynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf.

## Clwb Llyncu Llyfrau

Cafwyd deufis prysur iawn yn llyfrgell yr ysgol yn ddiweddar pan lansiwyd clwb newydd o'r enw 'Clwb Llyncu Llyfrau'. Clwb ar ôl ysgol ydyw, y nod yw mwynhad ac ymwybyddiaeth o lyfrau Cymraeg, Saeseg a hyd yn oed Ffrangeg, ffeithiol a nofelau.

Mae amryw o weithgareddau gwahanol yn digwydd o chwarae gemau, darllen, dweud stori, i ymweliad gan awdur –Bethan Gwanas a ddaeth atom ym mis Tachwedd ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Mae'r plant yn disgwyl yn amyneddgar am ei llyfr newydd wedi iddynt gael **blaen flas** arno!

Rydym yn ailgychwyn y clwb nos Fercher, 23 Chwefror, lle bydd yr aelodau presennol yn ailgydio. Mae croeso cynnes iawn i unrhyw ddisgybl o'r ysgol ymuno â ni.

Rydym yn cael cefnogaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, yn enwedig Nia Gruffydd, Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc.



## Y Marc Safon

Yn ystod mis Rhagfyr dyfarnwyd y Marc Safon i'r ysgol gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Rydym wedi ennill y Marc Safon oherwydd bod yr ysgol wedi gallu profi bod cynlluniau mewn lle ar draws y pynciau sy'n rhoi sylw arbennig i sgiliau llythrennedd a rhifedd ein disgyblion.

Profwyd ein bod yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion sydd angen cymorth i wneud cynnydd yn eu sgiliau darllen, rhif ac ysgrifennu.

Heblaw am y gwaith trawsbynciol canmolwyd y cyfleoedd sydd i Flwyddyn 7 wella eu darllen trwy'r cynllun boreol yn y llyfrgell a Blwyddyn 8 yn derbyn cymorth gyda'u sillafu a'u darllen trwy gydweithio â'r chweched dosbarth ar fore arall yn y llyfrgell. Mae Blwyddyn 7 hefyd yn cyfarfod ar un amser cinio yr wythnos i gael gwersi 'dal i fyny' Mathemateg.

Llongyfarchiadau i'r staff a'r disgyblion ar ennill y Marc Safon!

**Bingo Pasg**
**Neuadd Ysgol Brynrefail**
**23 mawrth am 7.30**
**Gwobrau amrywiol**
**Lluniaeth ar gael**

## Gwobrau Iaith a Mathemateg

Llongyfarchiadau i dri o ddisgyblion Blwyddyn 7 am eu hymdrech yn y pynciau Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn ystod yr hanner tymor a aeth heibio.

Enwebwyd Fred Thomas, 7N am ei ymroddiad i ddarllen Cymraeg a Mollie Duggan-Edwards am ei darllen Saesneg.

Penderfynodd yr adran Fathemateg mai Sam Roberts 7S oedd yn haeddu gwobr yn eu pwnc hwy oherwydd ei gynnydd ardderchog ers mis Medi. Derbyniodd y tri docynnau llyfr i'w gwario ar lyfrau Cymraeg neu Saesneg yn siop Palas Print, Caernarfon. Da iawn chi – a daliwch ati!



*Yr enillwyr: Fred, Sam a Mollie.*

## Camre Cymru

Mae naw o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn bwriadu treulio cyfnod yn Affrica yn ystod yr haf eleni. Bwriad y daith ydyw helpu trigolion Botswana i adeiladu ysgol a'i gadael yn weithredol fel rhan allweddol o ffynniant eu cymuned. Er mwyn gallu mynd ar y daith, y mae'n ofynnol i'r disgyblion godi swm sylweddol o arian. Maent wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn ceisio cyrraedd y nod ac wrthi'n trefnu nifer o weithgareddau i'r perwyl hwn. Y digwyddiad nesaf fydd Bingo Pasg a gynhelir ar nos Iau, 23 Mawrth yn neuadd yr ysgol – dewch i gefnogi! A siawns am wobr!!



*Criw Camre Cymru yn gwerthu danteithion.*

**CARPEDI GERAINT OWEN**
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

## Ymweliad yr Adran Gymraeg â Chaerdydd

Ddiwedd mis Ionawr teithiodd dwsin o fyfyrwyr hŷn yr ysgol sy'n astudio'r Gymraeg ar gyfer Lefel 'A' i Gaerdydd ar gyfer cwrs yn y Brifysgol yn seiliedig ar y maes llafur. Gyda gyrru hynod gelfydd yr athrawesau, cyrhaeddwyd y brifddinas yn brydlon nos Iau, a chafwyd cyfle i fwynhau pryd o safon yn un o fwytai llewyrchus y ddinas cyn dychwelyd i'r gwesty modern a moethus am noson weddol gynnar (!) er mwyn bod yn barod am y cwrs fore Gwener.

Cyffyrddodd y cwrs â nifer o elfennau o'r maes llafur Cymraeg Uwch, a chafodd y myfyrwyr fudd mawr o glywed yr arbenigwyr yn eu priod-feysydd yn bwrw goleuni gwerthfawr iawn ar y cerddi, y nofel osod, y chwedlau a'r hengerdd. Efallai mai uchafbwynt y cwrs i ni'r Gogs oedd gwrando ar ddarlith Dr Angharad Price - cyn-ddisgybl o Frynrefail - yn darlithio ar y nofel. Roedd hi wrth ei bodd fod y disgyblion wedi teithio cyn belled ac roedd ei chroeso didwyll yn destun balchder.

Pleser oedd cael mynd â chriw mor aeddfed o fyfyrwyr i roi blas ar fywyd y brifddinas a'r coleg iddynt. Roedd eu hagwedd a'u haeddfedrwydd yn glod mawr i'r ysgol. Tybed sawl un fydd yn cymryd y camau breision i lawr yr A470 fis Medi nesaf?



*Myfyrwyr Blwyddyn 13 efo Dr Angharad Price ar y dde yn y rhes gefn.*

## O Lwyfan i Lwyfan

Llongyfarchiadau gwresog i Huw Foulkes, Blwyddyn 13, ac Elin Mai Jones, Blwyddyn 12, ar ennill eu lle yng nghast cynhyrchiad diweddaraf Theatr Ieuenctid yr Urdd. Ymgeisiodd cannoedd i ennill eu lle yng nghynhyrchiad heriol y cwmni, sef cyfieithiad y Prifardd Tudur Dylan Jones o'r sioe gerdd enwog, *Les Miserables*, a lwyfennir am y tro cyntaf yn Gymraeg. Llwyddodd Huw ac Elin i sicrhau lle yn ail rownd y clyweliadau yng Nghaerdydd, a'r wythnos hon cadarnhawyd fod y ddau wedi ennill eu lle yn y cast terfynol. Ymddengys for 'Gris' wedi bod yn brentisiaeth dda i'r ddau!



*Huw Foulkes ac Elin Mai Jones a ddewiswyd ar gyfer cast Les Miserables.*




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**


## Hyrwyddo Llenyddiaeth yng Ngwynedd





Blwyddyn 7 yn ymweld â'r Llyfrgell yng Nghaernarfon ac yn cael cyfarfod yr awdur, Malachy Doyle, sydd wedi ysgrifennu nifer o lyfrau ar gyfer plant o oedran ifanc iawn i bobl ifanc yn eu harddegau. Mae rhai o'i lyfrau wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 1af o Chwefror yng Nghanolfan Penisa'rwaun.

**Gweddiwyd** i ddechrau'r cyfarfod.

Croesawyd yr Arolygydd Simon Davies o'r Heddlu a Miss Eira Huws o Gyngor Gwynedd. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwendidau cymdeithasol a restrwyd yng nghofnodion Ionawr.

**Ymateb yr Arolygydd:** Mae'r Rheolwr Rhawd wedi ailafael yn ei waith ar ôl salwch hir a bydd ar sifftiau dydd a gyda'r nos. Cyflogir PCSOs *(Police Community Support Officers)*, un ar gyfer Caernarfon ymhen wythnos. Cyfwelir un ar gyfer Pen-y-groes yr wythnos nesaf a bydd y trydydd ar gyfer yr ardal yma. Bydd 'Specials' ar gyfer pentrefi unigol fel bo'r angen.

**Gwasanaeth ateb yr Heddlu** Maent yn trio'u gorau i ymateb i bob galwad ond nid yw'r Cynghorwyr yn ffonio i gwyno am gamymddwyn. Mae nifer achosion yr yr ardal wedi gostwng. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus a symudir ymlaen â'r trefniant partneriaeth i gael help pawb i amlygu'r problemau.

Trafodaeth: Cefnogwyd y bwriad o gyfarfodydd cyhoeddus fel syniad gwych a dywedwyd y buasai ymddangosiad Heddwas ym Methel ar nosweithiau clwb ieuenctid a nosweithiau Gwener a Sadwrn yn ddigon. Ymweliadau byr fel 9.30 i 10.30. Cyfeiriwyd at sefyllfa debyg ym Mhenisa'rwaun, nid yw'r Swyddog Ieuenctid yn gyfrifol amdanynt pan ddont allan o'r Ganolfan am 9.00 o'r gloch. Mae Ieuenctid o ardaloedd eraill yn mynychu clwb Bethel a Phenisa'rwaun. Cyfeiriwyd at y sefyllfa *'proactive'* – Ieuenctid yn dychryn yr henoed gan eu bod yn ymwybodol na fydd yr Heddlu o gwmpas.

Gofynnwyd a fydd gobaith cael swyddog i lenwi'r bwlch pe bai'r Rheolwr Rhawd i ffwrdd o'i waith eto. Yr ateb oedd Na.

Soniwyd am achos lle trosglwyddwyd galwad ffôn o un lle i'r llall, a derbynnydd di-Gymraeg. Gofynnwyd am rif trosedd ar yr alwad gyntaf. Cafwyd yr un cwestiwn gan yr Heddlu oddi wrth dri gwahanol swyddog ers mis Awst diwethaf.

Eglurodd Simon Davies bod yna dair canolfan ateb, os bydd ffôn Caernarfon yn brysur yna trosgwyddir y galwadau ymlaen.

Diolchwyd i'r ddau ymwelydd gan y Cadeirydd.

**Derbyniwyd cofnodion Ionawr fel rhai cywir.**

**Materion o'r Cofnodion**

**Archwilio blynyddol**

Arddangoswyd rhybydd a gwahoddiad i'r cyhoedd archwilio cyfrifon y Cyngor am 2003/2004, o 18 Ionawr tan 2 Chwefror, yn y pentrefi.

**Porth y Gogledd, Deiniolen** Llythyr Gwynedd yn egluro nad oes angen arwyddion 'Dim Parcio' yn ogystal â'r llinellau melyn. Danfonwyd copi ohono i'r heddlu.

**Materion Priffyrdd**

**A4244, Groeslon Isaf, Penisa'rwaun.** Gosodir gwyneb 'Anti Skid' yma.

**Y tir gyferbyn â Swyddfa Post, Clwt y Bont.** Derbyniwyd copi o lythyr Gwynedd at y perchennog.

**Pendyffryn, Dinorwig.** Dim ateb o Wynedd ynglŷn â'r llwybr hyd yn hyn.

**Y Cynulliad**

**Creu Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru**

Ffurfiwyd ymateb i'w ddanfon i'r Cynulliad.

**Gohebiaethau Eraill**

Llythyr **Penllyn, Bryn'refail** yn nodi'r broblem llifogydd. Ychwanegodd Pat Jones bod angen clirio o dan y pontydd a dywedodd Phyllis Ellis bod hefyd eisiau clirio'r afon.

Penderfynwyd danfon copi o lythyr Penllyn gan gynnwys y sylwadau uchod at:

Asiantaeth yr Amgylchedd ac Adran Priffyrdd Gwynedd.

**Lôn Perthi, Penisa'rwaun.** Dywedodd Phyllis Ellis bod twll yn y ffordd ger Tŷ Eryri – llythyr i Wynedd.

**Cefn Braich, Rhiwlas.** Cyfeiriodd Elspeth Mitcheson at dwll yn y ffordd ger Cefn Braich – llythyr i Wynedd.

**Toiledau Cyhoeddus Deiniolen.** Rhybudd Gwynedd y gwneir gwelliannau iddynt yn fuan.

**Cynllunio**

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad: Ysgol Bethel.

Newid defnydd: Cartref Henoed Bethel.

Adeiladu Tŷ: Gardd Margaret, Bryn'refail.

Estyniad: Gorffwysfa, Waun, Penisa'rwaun.

Mynedfa i gerbydau: Parc Greenwood, Llanddeiniolen.

Addasu Adeilad yn Storfa am chwe mis: Fferm Rhiwen, Deiniolen.

**Gwrthodwyd gan Wynedd:**

Datblygiad Preswyl: Cae Penffridd, Deiniolen.

**Llwybrau**

Atebion Gwynedd:

Llwybrau 34/36 a 37 Henlôn/Maes Gwylfa/Inclein, Clwt y Bont. Angen sylw ar y ffosydd. Bydd Gwynedd yn cysylltu â'r tir-feddianwyr.

Llwybr 74. Carreg y Gath, Rhiwlas. Cwlfert wedi ei lanhau.

Llwybr 128. Capel Dinorwig/Tŷ Newydd. Pibell/cwlfert wedi eu glanhau.

Bronallt, Dinorwig. Ymwelir â'r safle gan Wynedd eto yn ystod adegau glawog.

**Llwybrau sydd angen sylw:**

Stryd Uchaf at y Post, Rhiwlas (139) – gwlïau wedi cau ac angen ail wynebu. (Hefin Jones)

Llwybr 43 ar hyd lôn Rhwng y Ddwyryd, Deiniolen – dŵr yn sefyll ar yr wyneb, lorïau yn troi yno ac yn creu llanast. (Pat Jones).

Llwybr 11 – O'r arwydd 30mya yn lôn Crawiau heibio i Ael y Bryn, Bethel – y cerb llechen wedi malu, dŵr yn rhedeg ar y llwybr yn lle ar hyd y ffordd i gyfeiriad Pont Charlie.

**Materion Eraill**

Mainc Bethel. Penderfynwyd gofyn am leoliad iddi ger Tafarn y Rhos. Gwirfoddolodd Huw P. Hughes geisio caniatâd y perchennog tir.

Mainc Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams bod Cyngor Gwynedd wedi ei chadw yn ddiogel dros y cyfnod gwaith adeiladu. Awgrymodd Elspeth Mitcheson gyhoeddiad yn *Llais Ogwan* yn gofyn am leoliad newydd i'r fainc.

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf** – 1af o Fawrth 2005.

## DRAENOG

Digon hawdd gweld bai ar y llafnau ifanc yn chwarae *'wheelies'* rownd castell Caernarfon ar nos Sadwrn. Peth arall yw clywed am flaenor a nain barchus (wel, parchus oedd hi!) yn ceisio eu hefelychu, ac yn gwrthod stopio i'r heddlu.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

## UN FUNUD FACH

## GANWYN

MAE oerni'r wythnos ddiwethaf a'r gaenen leiaf o eira sydd gennym y bore 'ma yn ein hatgoffa bod y gaeaf gyda ni o hyd. Mae arwyddion y gwanwyn gyda ni hefyd, ond y gaea'n gyndyn o fynd a'n gadael. Bydd yn dda gweld y gwanwyn yn cyrraedd, ond bydd rhaid i ni fodloni i ddisgwyl amdano. Mae'r garddwyr yn paratoi ar ei gyfer mewn gwahanol ffyrdd, ond ni all eu holl baratoadau ei brysuro: fe ddaw yn ei amser ei hun, neu'n fwy cywir, yn amser Duw.

Disgwyl gwanwyn newydd Duw y mae ei eglwys hefyd yng nghanol gaeaf ysbrydol oer ein dydd. Mae'r gwanwyn hwnnw hefyd yn llaw Duw, a chanddo ef y mae'r gallu i'w roi. A phan ddychwel y gwanwyn hwnnw i Gymru, bydd eglwys Dduw yn cydnabod yn llawen mai gras Duw a roddodd iddi'r cyfan. Ond mae'r un gras yn dweud wrthym y gallwn brysuro'r gwanwyn hwnnw. Mae'r Arglwydd yn galw arnom i wneud hynny trwy weddïo a rhannu newyddion da'r Efengyl. Daw'n wanwyn tymhorol hyd yn oed os na pharatown ar ei gyfer. Ond mae'r Duw Hollalluog yn addo'r gwanwyn ysbrydol i'r rhai sy'n hiraethu amdano.

JOHN PRITCHARD


I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr PORTHAETHWY**

Ffôn: **(01248) 714043**

neu **Caernarfon**

Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc



Gwesty

**Dolbadarn**

**LLANBERIS Ffôn: 870277**



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

# DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DIOLCH. Dymuna Mr Hefin Jones, Crud yr Awel, 37 Stad Glanffynnon, Llanrug, ddiolch i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am y llu cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd. Hefyd i feddygon a staff Ward Ogwen a'r Uned Gofal Arbennig, Ysbyty Gwynedd, Bangor am eu gofal diffuant.

YSGOL GWAUN GYNFI

*Plant Mewn Angen:* £165.

*Dr Barnados*: £608.78.

*Apêl Tsunami:* Cynhaliwyd 2 weithgaredd i godi arian i'r achos yma. Daeth y plant i'r ysgol yn eu dillad eu hunain ddydd Gwener, 28 Ionawr, a chasglwyd £147.50. Trefnodd y Pwyllgor Rhieni/ Athrawon noson Bingo ar nos Fawrth, 1 Chwefror, a chasglwyd £184.50. Cyfanswm o £332.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd.

*Ras Deiniolen.*

Cyflwynwyd tarian gan Mr Gwilym Williams i Mr Rhys ab Elwyn am ennill Ras 10k eleni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mr Williams am ei rodd hael iawn o fedalau a tharian i enillwyr y ras.

*Amgueddfa Lechi.*

Bu dosbarthiadau Mrs Warrington a Mrs Hughes yn ymweld â tai Bron Haul yn yr Amgueddfa ddydd Mawrth, 18 Ionawr, i weld sut oedd pobl yn byw erstalwm.

*Clwb y Ddraig – Gweithgareddau All-gyrsiol.*

Athletau yw gweithgaredd y Clwb y tymor yma. Mae'r clwb yn ymgynnull pob nos Fawrth ar ôl yr ysgol.

*Disgo Santes Dwynwen.*

Cynhaliodd Pwyllgor Rhieni/ Athrawon yr ysgol ddisgo i ddathlu noson Santes Dwynwen. Mwynhaodd pawb yn fawr iawn.

*Bingo.* Hefyd cynhaliwyd noson Bingo ar nos Fawrth, 1 Chwefror.

*Sachau Stori.*

Bu rhieni a phlant y dosbarth Derbyn yn cael stori gan Ms Esyllt Roberts gyda'r pypedau a wnaed gan rai o'r rhieni yn ystod tymor y gaeaf. Ymwelwyd â'r llyfrgell yn Nhŷ Elidir ddydd Mawrth, 18 Ionawr.

*Llythrennedd Teulu.*

Mae'r cwrs yma yn cael ei gynnal eto eleni gyda rhai o rieni'r plant ieuengaf. Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal ar bedwar pnawn yr wythnos i'r plant a bob dydd Iau i'r rhieni a'r plant gyda'i gilydd.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG.

Er ei bod yn noson aeafol, daeth nifer dda i wrando ar y Darpar Archdderwydd, Selwyn Iolen, yng Nghymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist nos Lun, 5 Chwefror. Yn ei ddull cartrefol aeth Selwyn Iolen a ni trwy ei brofiadau o'r adeg pan oedd yn fachgen ym Methel, cymeriadau yr ardal, ei hanes fel athro a hynt a helynt pêl-droed. Noson ddifyr ac roedd yn bleser cael gwrando ar ei ddawn yn adrodd ei farddoniaeth. Diolchwyd iddo gan Mrs Gwen Griffith a pharatowyd lluniaeth gan Mrs Rosina Worth a Mrs Eileen Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y Rheithordy, Llanberis, nos Lun, 7 Mawrth, dan ofal y Parchedig Deiniol Morgan, i ddathlu Gŵyl Dewi Sant. Croeso cynnes i bawb.

**Gwasanaethau mis Mawrth:**

6: 2.00 y pnawn Gwasanaeth Teuluol, Sul y Fam
5.30 yr hwyr: Hwyrol Weddi, Mr Derek Jones.
13: 8.30 y bore: Cymun Bendigaid
20: 5.30 yr hwyr: Cymun Bendigaid, Sul y Blodau
27: SUL Y PASG – Manylion i ddilyn.

DYMUNA Debbie Guy, 4 Tai Caradog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r meddygon a staff ward Ffrancon.

DIOLCH. Dymuna Mrs Deanna Price, Tros y Waun, Pentir, ei phlant, Dyfed a Delyth, ei merch yng nghyfraith, Emma, a'i wyrion, Iwan, Cian, Iestyn a Josh, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn y brofedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl iawn, sef Mr Percy Wyn Price.

Diolch arbennig i'r Canon Idris Thomas, Trefor, am ei wasanaeth, i'r organydd, Mr Munro ac i Mr Dylan Griffith, Tros y Waun, Penisarwaun am ei drefniadau gofalus. Bu'r cyfan yn gymorth mawr i'r teulu yn eu colled.

Hefyd dymuna Elinor a Grace, chwiorydd Percy, ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad wedi colli brawd annwyl iawn.

PROFEDIGAETH. Cartrefodd Gordon a Doll Brown yn Deiniol Road, Deiniolen wedi eu hymddeoliad yn yr wythdegau cynnar. Yna yn y nawdegau aethant i fyw i ardal Sutton Coldfield i fod yn agosach at eu mab. Hiraethu wnaeth y ddau a dymuniad Doll oedd dod yn ôl i Ddeiniolen. Bu hi farw ar 19 Tachwedd 2004 yn Ysbyty Hope, Sutton Coldfield yn 84 mlwydd oed.

Cynhaliwyd Gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar 25 Tachwedd 2004 a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym Mynwent yr Eglwys. Dymuna Mr Gordon Brown a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y cydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt ar golli gwraig a mam arbennig, Hester Emma Brown (Doll).

Mawr yw eu diolch i'r rhai a ddaeth i dalu y deyrnged olaf i Doll ddiwrnod ei hangladd, am y cyfraniadau tuag at Ymchwil y Galon, ac am y blodau er cof. Diolch i'r Parch Deiniol Morgan a'r organydd, Dr W. Munro, am eu cyfraniad ac yn arbennig i Dylan Griffith, yr Ymgymerwr, am ei drefniadau trylwyr a gofalus. Diolch i bawb.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI.

Cynhaliwyd Eisteddfod Gwaun Gynfi ddydd Sadwrn, 5 Chwefror. Eisteddfod 2004 oedd hon ond oherwydd llifogydd mis Hydref diwetha bu rhaid gohirio'r cyfarfod. Enillydd Cadair yr Eisteddfod oedd Mr Dafydd Guto Ifan, Llanrug ac enillwyd y Fedal Lenyddol dan 25 oed gan Mr Elfed Morgan Morris o Ddeiniolen. Elfed oedd yn fuddufol hefyd ar Dlws y Cerddor dan 25 oed.

**Canlyniadau fel a ganlyn:**

*Ysgol Feithrin – plant y bore: Adrodd:* 1. Cian; 2. Rebecca. *Canu:* 1. Rebecca; 2. Elin; 3. Cian.

*plant y pnawn: Adrodd:* 1. Awel; 2. Ian; 3. Chris a Cloe. *Canu:* 1. Awel; 2. Cloe; 3. Chris ac Ian.

*Bl. 1 a 2: Adrodd:* 1. Alex; 2. Catrin Llewelyn. *Canu:* 1. Catrin Llewelyn; 2. Osian; 3. Alex.

*Bl. 3 a 4: Canu:* 1. Catrin Elen; 2. Alice a Iola; 3. Tomos a Lee.

*Bl. 5 a 6: Adrodd:* 1. Amy. *Canu:* 1. Rhiannon; 2. Amy.

*Unawd Alaw Werin dan 12:* 1. Iola; 2. Catrin Elen; 3. Alex.

*Canu Emlyn dan 12:* 1. Amy.

*Parti Canu dan 12:* Parti Iola, Deiniolen.

*Unawd dan 16:* 1. Alaw Tecwyn; 2. Iolo.

*Unawd Cerdd Dant dan 21:* 1. Alaw Tecwyn; 2. Elen Gwenllian.

*Cân Werin dan 25:* 1. Elen Gwenllian; 2. Alaw Tecwyn.

*Adrodd 16–21:* 1. Elan Gwenllian.

*Unawd Piano dan 21:* 1. Elen Gwenllian; 2. Alaw Tecwyn.

*Cân o Unrhyw Sioe Gerdd:* 1. Alaw Tecwyn; 2. Elen Gwenllian.

*Unawd 16–21*: 1. Elen Gwenllian.

*Adrodd Digri:* 1. Owen Parri.

*Canu Emyn dros 50:* 1. Arthur Wyn; 2. Betty Lloyd Roberts a Tecwyn Blainey; 3. Owen Parri.

*Cân Werin:* 1. Alaw Tecwyn; 2. Elen Gwenllian; 3. Owen Parri.

*Prif Adroddiad:* 1. Elen Gwenllian.

*Ymgais orau yn yr Adrannau canlynol:*

Cerdd dan 12 oed: Iola.

Adrodd dan 12 oed: Amy.

Llenyddol dan 12 oed: Ffion.

Celf a Chrefft dan 12: Owain James.

Cerdd dan 21 oed: Alaw Tecwyn.

*Cwpan Bryn Du* (Gwau a Gwnïo); Mrs Diana Davies;

*Cwpan Llys Myfyr* (Celf a Chrefft): Sophia.

*Cwpan Clwb Snwcer Deiniolen* (Gwaith Coed): Gethin James.

*Cyfansoddi Emyn Dôn;* Yn gydradd gyntaf: Valmai Williams, Aberdesach a Gwilym Lewis, Caergybi.

**Adran Llenyddol**

*Meithrin:* 1. Ian; 2. Cloe; 3. Jason.

*Bl. Derbyn:* 1. Ceinwen; 2. Leanne; 3. Shannon a Rebecca.

*Bl.1:* 1. Ffion Warner; 2. Harri M. Jones; 3. Gwydion Morris.

*Bl.2:* 1. Catrin Llewelyn; 2. Osian Worth; 3. Eilish Jones a Catrin Medi.

*Bl.3:* 1. Iola Bryn Jones a Lliwen Morris; 2. Steffan Warner a Rhys Llywelyn; 3. Catrin Ellen a Hanna Williams a Rhys Ellis Jones.

*Bl.4:* Awdur 'Sara a'r Ci Bach Gwyn'; 2. Awdur 'Dianc i Ffwrdd'; 3. Awduron 'Ben y Ci' a 'Y Siarc'.

*Bl.5:* 1. Ceri; 2. Tudur a Lois; 3. Iwan a Tomos.

*Bl.6:* 1. Lliwen; 2. Anthea; 3. David Williams.

*Stori Fer:* Mr John Norman Davies, Llangefni.

*Englyn:* Mr Meirion Jones, Llanfairpwll.

*Telyneg:* Mrs Valmai Williams, Aberdesach.

*Limrig:* Mrs Mari Wyn Jones, Deiniolen.

*Llinell Goll:* Mrs Ann Wyn Owen, Rhoscolyn.

*Casgliad o ddywediadau a geirfa unrhyw ddiwydiant:* Mr Dafydd Guto Ifan, Llanrug.

*Emyn:* Mr Gareth V. Davies, Hen Golwyn.

**Celf a Chrefft**

*Gwau:* 1. Diane Davies; 2. Elan Williams.

*Coginio:* 1. Gwen Griffiths; 2. Elan Williams; 3. Valmai Williams.

*Gwaith Coed:* 1. Gethin Rhys James; 2. Sophia Williams.

*Ffotograffiaeth:* 1. Valmai Wiliams; 2. Gwen Griffiths; 3. Alwyn Williams a Hilda Parry.

*Arlunio Ysgol Uwchradd:* 1. Sophia Williams.

*Gwaith Llaw Ysgol Uwchradd:* 1. Sophia Williams.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod, yn enwedig i garedigion yr Eisteddfod a'r hysbysebwyr. Os oes unrhyw un â diddordeb yn yr Eisteddfod ac yn dymuno dod ar y pwyllgor yna byddem yn falch iawn o unrhyw gymorth. Dowch, mae angen gwaed newydd er mwyn sicrhau dyfodol yr Eisteddfod.



Enillydd yr Alaw Werin dan 12 oed: Iola Bryn Jones, Llwydfryn, Ffordd Marchlyn. Hefyd enillodd Iola y tlws er cof am Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian Dinorwig am yr ymgais orau yn yr Adran Gerdd dan 12 oed. Cafodd ail am ganu 'Coed y Glyn' Bl. 3 a 4. Hoffai Iola ddiolch o galon i Lindsay Parri am ei hyfforddi hi yn barod tuag at yr Eisteddfod.


GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Nos Fawrth, 1 Chwefror, cafwyd sgwrs ddiddorol a hwyliog gan y Parchedig Harri Parri, Caernarfon. Soniodd am ei fagwrfa a'i gefndir ym Mhen Llŷn a'i achau, sydd wedi eu holrhain yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fawrth, 1 Mawrth, yn Festri Capel Coch am 7.00 o'r gloch. Cynhelir Cwis yng ngofal y Parchedig John Pritchard. Croeso cynnes i'r aelodau. Dowch i ddangos eich gwybodaeth (neu ddiffyg!).

DYMUNA Joe, Idwal, Eirlys a Nanw ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad o golli gwraig, Gwyneth Clarke, chwaer a modryb annwyl. Diolch am yr holl gardiau a'r arian tuag at Feddygfa Llanberis. Diolch i'r Tad McNamara, y Parch John Pritchard ac i Gwynfor am y trefniadau trylwyr.

CARAI Nan Wilson Evans, Manod, 17 Ffordd Capel Coch ddiolch i'r holl deulu a ffrindiau am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd pan oedd yn wael yn y cartref yn ddiweddar.

Hefyd am yr holl gydymdeimlad a dderbyniodd ar farwolaeth sydyn Breda, nith annwyl iawn.

EGLWYS ST PADARN

Gan fod cymaint yn holi beth yw'r rheswm am y sgaffaldiau o gwmpas yr adeilad, dymuna'r Parchedig Deiniol Morgan a'r Cyngor Eglwysig egluro mai gwaith atgyweirio'r toeau sydd ar fin cychwyn. Gorfu gwneud hyn ar ôl derbyn adroddiad y pensaer a fu yn archwilio cyflwr yr adeilad yn ddiweddar. Nid yw hyn ond dechrau ar restr hir o amryw faterion sydd angen sylw. Mae gwaith ar y rhwydwaith trydanol, i ymateb i ofynion rheolau diweddar, eisioes mewn llaw. Hawdd deall fod angen arian sylweddol i gwblhau'r holl waith yma cyn ystyried y gweddill o'r rhestr yn adroddiad y pensaer.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Steven Roberts, Caffi Pen y Ceunant Isaf, am werthu printiadau o lun gan William Selwyn. Bydd yr holl arian yn mynd tuag at yr Eisteddfod. Dim ond nifer cyfyngedig o'r llun a argarffwyd, felly os ydych yn dymuno prynu un galwch yn y caffi yn fuan.

Mae'r pwyllgor hefyd yn dymuno diolch i'r holl fusnesau a chymdeithasau sydd wedi cyfrannu i'r gronfa apêl. Byddwn yn cyhoeddi rhestr lawn o'r cyfranwyr unwaith y byddwn wedi cyraedd ein targed.

Y gweithgaredd nesaf yw cyngerdd gyda Hogiau'r Wyddfa, Cor Cyntaf i'r Felin ac artistiaid eraill a gynhelir yn y Mynydd Gwefru, Nos Wener, 13 Mai. Bydd manylion llawn yn yr Eco nesaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r pwyllgor apêl nos Fawrth, 8 Mawrth am 7.00yh yn Angorfa.



TORRI'R RHUBAN. Alwyn Pleming, cyn Bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Brynrefail yn agor y Bistro, Llanberis, ar ôl cael ei addurno ddechrau mis Ionawr. Bu Alwyn yn athro ar Danny Roberts, y perchennog, flynyddoedd lawer yn ôl!!


J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)



ARVONIA

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk



Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi ); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
( i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

Bysiau o 12 i 53 sedd

Teithiau Lleol a Thramor

Gwaith Contract

Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol


## Côr Mr. W. James yn Llangollen, 1952.



# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion cyfarfod nos Iau, Ionawr 20fed, 2005.

**PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
**Ward Padarn:** Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Olwen Gwilym, Derek Jones, Ken Jones (Blaen y Ddôl), Fred Owen, Douglas Pritchard, Carys Thomas (Cadeirydd), , Trystan Thomas,
**Ymddiheuriadau:** Helen Sharp.

**CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau, Rhagfyr 16eg, 2004, fel rhai cywir. Cynnig ac eilio – DJ/GA.

**DATGAN BUDDIANT:**
Cyfeiriodd GA at gais cynllunio CO5A/0023/15/LL [49 Stryd Fawr, Llanberis]. Mae'r adeilad yn ei feddiant, ond ei fod ar fin cwbwlhau'r trefniadau i'w werthu. Er nad oes wnelo fo ddim â'r cais cynllunio cynghorwyd ef i beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
•*Cae Chwarae 'Landing', Glan Llyn Padarn:*
Adroddwyd gan y Clerc iddo ysgrifennu at un o swyddogion y Grŵp a mynd i'w gweld er mwyn cael ateb i rai cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod olaf. Cafwyd cadarnhad fod y Grŵp sy'n dabyglygu'r safle wedi gofyn am bris i gwmni lleol, dywedwyd y bydd yno beth cyfleusterau a mynedfa ar gyfer yr anabl, ac y byddai y Grŵp yn holi am yr yswiriant a'r trefniadau torri glaswellt presennol cyn gofyn i'r CC ysgwyddo'r gost. Cafwyd sicrwydd hefyd y bydd y ffens o gwmpas y maes chwarae yn un gadarn a sylweddol. Roedd cytundeb y bydd cymorth ar gael i'r Grŵp os bydd ei angen.
• *Cydnabod Gwasanaeth Cynghorydd:*
Cafwyd cadarnhad fod y Clerc wedi anfon gair at y Cynghorydd dan sylw yn diolch iddo am ei wasanaeth hir.
• *Llwybr Treftadaeth:*
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ei fod ef a KJ wedi mynychu ail gyfarfod Gweithgor y Llwybr y prynhawn hwnnw. Mae'n debyg y gwelir derbyn cymorth sylweddol o Gist Gwynedd tuag at y gwaith, er y bydd galw hefyd am beth cymorth ariannol oddi wrth y Cyngor Cymuned (CC). Bydd y grant dros ddwy flwyddyn ariannol, a bydd angen cwblhau peth o'r gwaith cyn diwedd Mawrth. Siomedig eto oedd yr ymateb i gefnogi'r gwaith, ar hyn o bryd Ysgol Dolbadarn, Partneriaeth Llanberis (gweinyddu), Yr Amgueddfa a'r Cyngor sy'n weithredol a gweithgar.
Dywedwyd fod y Llwybr i fod yn un a fyddai'n ddefnyddiol i drigolion lleol yn ogystal ac ymwelwyr a'r bwriad oedd cyfeirio ymwelwyr drwy'r Stryd Fawr fel rhan o'r daith a fyddai'n dechrau yn y Gyfnewidfa Bysiau yn Nôl y Goeden.

**CYNLLUNIO:**
•NP3/15/124F 'Newid defnydd o goedwig masnachol i safle carafanau teithiol a champio' (cais diwygiedig), Coed Victoria, Llanberis – roedd hwn yn gais diwygiedig pellach nad oedd yn ei hanfod ddim gwahanol i'r hen rai a gyflwynwyd. Penderfynwyd cadw at y penderfyniad gwreiddiol, ac nad oedd y Cyngor yn gefnogol i'r cynllun. Yr un yw'r rhesymau ac o'r blaen.
•C04A/0860/15/R4 'Ymestyn Offer y Cae Chwarae Presennol, Tir ger Cae Chwarae, Llyn Padarn, Llanberis. Doedd dim gwrthwynebiad.
•C05A/0023/15/LL Edrychiad newydd i'r Siop a Grisiau allanol newydd yn y cefn, 49 Stryd Fawr, Llanberis. Dim gwrthwynebiad. [Nid oedd GA yn rhan o'r drafodaeth – gweler nodyn 'Buddiant' uchod.]

**WEDI EI GANIATÁU:**
•NP3/15/1A Codi estyniad cefn – 7 Maes Derlwyn, Llanberis.
•CO3A/0803/15CR Dymchwel rhan o'r adeilad presennol ynghyd â newidiadau ac estyniadau i greu 5 Uned preswyl a Bwyty, 59 Stryd Fawr Llanberis
•C04A/0833/15/LL Cynyddu cyfleusterau gofal plant o 3 i 6 plentyn, 28 Dôl Elidir, Llanberis

**DYFODOL 'ANGORFA'**
Cafwyd trafodaeth sylweddol ar y defnydd neu'r prinder defnydd a wneir o 'Angorfa', Stryd y Ffynnon. Ar gais y Clerc, a roddodd grynodeb o gostau rhedeg y tŷ, bu trafodaeth ynglŷn â'i ddyfodol. Bu sôn am y posibilrwydd o symud Arddangosfa T. Rowland Hughes i rywle arall, lle byddai'n cael ei gweld a'i gwerthfawrogi'n well. Credir y gallai mwy o fudiadau a chymdeithasau yn y pentref fod yn defnyddio'r brif ystafell.

**GOHEBIAETH:**
• Cwmni Adwy Cyf: Cafwyd llythyr yn egluro ymhellach sut y gosodwyd 'yr Hen Go-op', 60 Stryd Fawr, Llanberis ond yn anffodus doedd y llythyr ddim yn cydnabod y dylai barn leol trigolion a Chyngor Cymuned gyfrif wrth benderfynu ar ddyfodol unrhyw eiddo sydd gan y Cwmni.
• Swyddog Adfywio Bro: Derbyniwyd llythyr oddi wrth Dafydd Einion Jones, a benodwyd i'r swydd yma yn ddiweddar. Roedd wedi dod ar draws llythyr oddi wrth y Cyngor a oedd yn gresynu fod perthynas digon gwael a bregus wedi bod rhwng y Cyngor a swyddogion Adfywio Bro Cyngor Gwynedd. Roedd am weld pethau'n gwella. Yn ôl EB cynrychiolydd y Cyngor ar bwyllgor lleol Ardal y Llechen fu dim cyfarfod ers amser maith. Bu'r swydd swyddog adfywio bro hefyd yn wag ers mis Mawrth 2004, nes y penodwyd y swyddog diweddara ychydig cyn y Nadolig. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i D. E. Jones ddod i gyfarfod buan o'r CC.

**ARCHWILIAD ARIANNOL 2003–04:**
Cyflwynwyd Mantolen Ariannol y flwyddyn ariannol olaf, o ddechrau Ebrill 2003 i ddiwedd Mawrth 2004. Roedd wedi ei archwilio gan Archwiliwr y Cyngor a'i chael yn gywir. Bydd yn awr yn cael ei hanfon ymlaen at yr Archwiliwr yng nghwmni UHY Hacker Young, Caer sy'n gweithredu ar ran Y Comisiwn Archwilio. Cafwyd eglurhad ar y ffigyrau ac fe'u derbyniwyd. Cynnig ac eilio: FO/DP

**PRESEBIAD:**
Wedi trafodaeth fanwl penderfynwyd ar Bresebiad o £10,000 ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'n is na'r blynyddoedd blaenorol ar sail fod balansau'r Cyngor yn bur iach. Cynnig ac eilio: DJ/TT.

**UNRHYW FATER ARALL:**
•Gefeillio â Morbegno: Penderfynnwyd ethol FO at DJ i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor Gefeillio. Cynnig ac eilio DJ/DP. Adroddwyd fod angen cymorth pellach i sicrhau gweithgarwch ynglŷn â'r gefeillio ac i roi'r cyfan ar sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Cafwyd cyflwyniad byr o luniau yn olrhain hanes y gefeillio gan FO a bwysleisiodd fod y dref Eidalaidd yn cymryd y mater o ddifrif ac y dylen ninnau hefyd. Roedd cytundeb y dylem ddangos brwdfrydedd o blaid y gefeillio, ond byddai angen gwylio'r gwariant!
•De ddwyrain Asia: Adroddodd y Clerc fod y Cadeirydd wedi gofyn iddo am gyngor ar ôl derbyn cais yn gofyn a allai'r Cyngor gyfrannu at Apêl De Ddwyrain Asia yn sgil difrod a thrallod y Tsunami. Dywedodd ei fod wedi derbyn cyngor oddi wrth gyfarwyddwr 'Un Llais i Gymru' a oedd yn berffaith glir nad oedd gan gynghorau lleol hawl i gyfrannu at achosion tramor, pa mor deilwng bynnag ydynt.
•Cae Frondeg: Gofynnwyd a oedd y Cyngor yn gofalu am gae chwarae Frondeg, ac awgrymwyd mai da o beth fyddai trafod gyda rhai o'r trigolion lleol i weld a ellid gwella'r cyfleusterau yno fel lle chwarae pêl-droed.

* * *

Cofnodion cyfarfod nos Iau, Chwefror 17eg, 2005.

**PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
**Ward Padarn:** Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Olwen Gwilym, Derek Jones, Ken Jones (Blaen y Ddôl), Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp (Cadeirydd), Carys Thomas.
**Ymddiheuriadau:** Trystan Thomas.

**CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau, Ionawr 20fed, 2005 fel rhai cywir. Cynnig ac eilio – FO/DP.

**DATGAN BUDDIANT:**
Dywedodd KJ a DP, y ddau'n aelodau o Bwyllgor Ras yr Wyddfa, na fyddent yn cymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais am nawdd i'r Ras eleni, ac yn yr un modd DJ mewn perthynas â'r cais am gymorth i'r gwaith trwsio ar dŵr Eglwys St Padarn. Ymataliodd HS rhag trafod un cais cynllunio CO5A/0098/15/LL a oedd yn ymwneud â'i chymydog.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
•*Cae Chwarae 'Landing', Glan Llyn Padarn:*
Adroddwyd fod y cais am ganiatâd cynllunio wedi llwyddo.
• *Llwybr Treftadaeth:*
Cafwyd adroddiad gan KJ a'r Clerc iddynt fynychu cyfarfod arall o Weithgor y Llwybr. Bellach mae bras gynllun ar gyfer y llwybr a fyddai'n dechrau o Ddôl y Goeden yn mynd heibio'r Vitoria ar y Castell a draw i Gilfach Ddu. O'r fan honno y bwriad yw dod yn ôl i'r pentref at lan y llyn gan fynd draw i'r Glyn cyn dod yn ôl a thrwy Coed Doctor i Lôn Tŷ Du ac i lawr i'r Stryd Fawr ger Y Bistro. Wedyn dychwelyd ar hyd y Stryd Fawr i Ddôl y Goeden a'r Gyfnewidfa Bysiau. Mae cyfarfod nesa'r Gweithgor ar yr 2ail o Fawrth.
• *Cae Chwarae Frondeg:*
Wedi trafodaeth cytunwyd fod angen cadw gwell trefn ar y cae yma sy'n ddefnyddiol iawn i blant lleol gicio pêl. Awgrymwyd y dylid torri'r gwair yn weddol gyson.
• *Cip Dros y Copa (Cyfnewid Cefn Gwlad)*
Er fod tri aelod o'r Cyngor, EB, OG a KJ wedi bod yn rhan o'r trafodaethau gyda'r criw o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Unol Daleithiau, chafodd yr un ohonynt wahoddiad i fynd i'r cyflwyniad terfynnol ym Meddgelert, pan gyhoeddwyd yr adroddiad. Bwriad y gwaith oedd gweld a ellid cael gwell cyswllt rhwng y tri dyffryn o gwmpas troed Yr Wyddfa, yn cynnwys pentrefi Waunfawr, Beddgelert a Llanberis. Syniad a oedd braidd yn anymarferol ym marn y tri a fu'n rhan o'r trafodaethau ac a ddywedodd hynny wrth yr ymchwilwyr, serch hynny dyna oedd byrdwn yr adroddiad.
• *Gefeillio*
Adroddwyd na chafwyd gwybod eto pa bryd y bydd Cyngor Gwynedd (CG) yn codi arwyddion 'gefeillio' bob ochr i'r pentref. Pwyswyd fod peth brys i'w codi. Adroddwyd fod y dyluniadau wedi eu cwblhau. Penderfynwyd anfon at CG i ofyn pryd y byddan nhw yn ymddangos. Cynnig CT/GA.

**CYNLLUNIO:**
CO5A/0098/15/LL 'Estyniad' – 29 Maes Padarn, Llanberis. LL55 4TD. Roedd na gryn bryder ynglŷn â maint yr estyniad yma. Roedd pryder hefyd fod y maint yn mynd i newid cymeriad y stad, a gofynnwyd a fyddai'r ychwanegiad yn ymyrryd â mwynderau'r cymdogion. Penderfynwyd anfon at Adran Gynllunio CG i fynegi pryderon y mwyafrif llethol o'r cynghorwyr. [Ni chymerodd HS ran yn y drafodaeth]
CO5A/0091/15/LL 'Newid edrychiad blaen yr adeilad allanol ynghyd â'i ymestyn' – Canolfan Ddringo, Bryn Du, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.

**WEDI EI GANIATÁU:**
•C04A/0860/15/R4 'Ymestyn Offer y Cae Chwarae Presennol', Tir ger Cae Chwarae, Llyn Padarn, Llanberis.
•C05A/0023/15/LL Edrychiad newydd i'r Siop a Grisiau allanol newydd yn y cefn, 49 Stryd Fawr, Llanberis.

**Y FYNWENT:**
Adroddwyd fod angen cadw golwg ar gerrig beddau yn y Fynwent ar ôl gwyntoedd mawr. Roedd nifer wedi syrthio mewn storm ddiweddar. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod buan gyda'r ymgymerwyr lleol ynglŷn â threfn claddu yn y darn newydd, cyn i ragor o dir gael ei golli. Nodwyd fod wyneb un bedd cymharol hen, wedi suddo. Nodwyd hefyd fod y twrch daear yn weithredol eto!

**GOHEBIAETH:**
• *Ymddiswyddiad:*
Derbyniwyd ymddiswyddiad Wendy Hughes fel Cynghorydd. Roedd yn ymddiheuro am golli cyfarfodydd. Felly oherwydd pwysau gwaith a theulu teimlai mai ymddiswyddo oedd orau.
• *Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC)*
Yn nodi mai'r uchafswm o £5.30 y pen sy'n cael ei ganiatáu y flwyddyn ariannol nesaf ar wariant na fyddai fel arall yn awdurdodedig.
• *Gwelliant Maes Parcio Nantperis*
Derbyniwyd copi o gynllun ar gyfer addasu y maes parcio oddi wrth Goriad Gwyrdd Eryri. Bydd y gwelliannau a'r lloches wedi eu cwbwlhau cyn yr haf.
• *Safle Parcio Anabl – 3 Stryd Yr Wyddfa*
Mae'r lleoliad yn un newydd, ac yn cael ei hysbysu'n ffurfiol. Dim gwrthwynebiad.
• *Mapiau Mynediad CCGC*
Derbyniwyd copïau o fapiau terfynol yr ardal o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Bydd rhain yn weithredol o dyddiad i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2005.
• *Rheilffordd Yr Wyddfa*
Derbyniwyd llythyr yn nodi fod y cwmni wedi sicrhau cyflenwad newydd o lo ager o Wlad Pwyl ar gyfer eu peiriannau ager eleni. Yn ôl y cwmni bydd llawer llai o lygredd na'r llynedd.
• *Capel Coch, Llanberis*
Derbyniwyd llythyr oddi wrth ysgrifennydd yr eglwys yn nodi fod cerbydau uchel, ar fwy nag un achlysur, wedi creu difrod i ochr y festri a gofynnwyd i'r CC a fyddai modd dwyn perswad ar CG i wneud rhywbeth ar y ffordd. Mae'n debyg mai parcio ceir oedd yn rhannol gyfrifol, ond roedd llefydd parcio'n brin a gofynnwyd i'r Clerc nodi fod angen datrys problem y capel heb golli llefydd parcio i rieni yn casglu plant o'r ysgol a'r ysgol Sul.

**CRONFA CYMORTHDALIADAU BYCHAN:**
Wedi trafodaeth fanwl penderfynwyd dosbarthu arian o dan gynllun Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor i'r canlynol.

GOLEUADAU NADOLIG, LLANBERIS; RAS YR WYDDFA; CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL LLANBERIS; CLWB PÊL-DROED 'COLTS' LLANBERIS (5 TÎM); EGLWYS SANT PADARN,

LLANBERIS; GRŴP RAINBOWS A BROWNIES, LLANBERIS; PWYLLGOR GEFEILLIO LLANBERIS – MORBEGNO; CRONFA R. H. OWEN; ECO'R WYDDFA; YSGOL FEITHRIN LLANBERIS; DAWNS I BAWB; AMBIWLANS AWYR CYMRU; CYMDEITHAS Y BYDDAR GOGLEDD CYMRU; CYNGOR AR BOPETH GWYNEDD A DE MÔN; EISTEDDFOD LLANGOLLEN; CWMNI BARA CAWS; CYFEILLION CAE'R GORS; EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, CAERDYDD; BOBATH CYMRU – CANOLFAN THERAPI PLANT CYMRU; GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR.

Cynnig ac eilio: KJ/CT.

**UNRHYW FATER ARALL:**

• *Yr Heddlu a CCTV* – Dywedodd FO fod y Swyddog Rhawd Cymunedol yn ôl wrth ei waith ac iddo ei gyfarfod yn ddiweddar. Dywedodd fod yr Heddwas Willdigg yn ceisio sefydlu cynllun camerâu fideo ar gyfer y pentref ac yn awyddus i drafod y cynllun efo'r Cyngor. Penderfynwyd estyn gwahoddiad iddo i gyfarfod nesaf y Cyngor i egluro beth oedd dan sylw.

• *Llinellau Melyn Ffordd Tŷ Du* - Pa le mae'r llinellau coll?

• *Llwybrau* – Rhif 25, Mwdlyd a pheryglus. Llwybr 'Landing' – pyllau dŵr a budr. Ffordd y Coed angen ei thrwsio.

• *Defaid* – adroddwyd fod defaid yn crwydro.

• *Cyfnewidfa Bysiau, Dôl y Goeden* – Sbwriel a dim biniau.

• *Twll yn y Wal Barclays* – byth wedi ei adnewyddu ar ôl y tân.

• *Pentre Castell* – Eithin ar y palmant a parcio blêr.

• *Palmant* – Croesawu'r palmant newydd ym Mhentre Castell sy'n golygu fod llwybr troed yr holl ffordd i'r Nant. Lle mae'r llwybr i'r Bwlch?

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CODI ARIAN. Canlyniadau'r ymdrechion gwahanol codi arian er mwyn ad-dalu'r ddyled o £3,200 y flwyddyn ar Y Ganolfan oedd fel a ganlyn, Talwrn y Beirdd: £83; Noson Lawen: £553; Casglu yn Storfa Safeway: £465; Stondinau Miri Haf: £242; Ocsiwn Addewidion: £1,073; Ffair Nadolig: £352, a'r Raffl Fawr: £509. Felly y cyfanswm oedd £3,277 – da iawn pawb.

Digwyddiad cyntaf 2005 fydd noson yng nghwmni John Ogwen a Maureen Rhys ar nos Fercher, 9 Mawrth. Tocynnau ar gael gan Deiniol Huws, Tŷ Mawr (672998).

**CANOLFAN Y CAPEL CAEATHRO**

Dewch i ddathlu Gŵyl Dewi Sant hefo cawl ac adloniant yng nghwmni

**JOHN OGWEN**
**A**
**MAUREEN RHYS**

**nos Fecher, 9 Mawrth**
**am 7.30 o'r gloch**
**yng Nghanolfan y Capel Caeathro**

Addas i'r teulu i gyd
Tocynnau **£4.00**
**Siop Na Nog, Caernarfon**
**Palas Print, Caernarfon**
**Deiniol Huws (01286) 672998**

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan y Capel, Caeathro ar nos Lun, 24 Ionawr. Roedd y Cyng Clive James a Vera Roberts yn bresennol.

Oherwydd nad yw Cyngor Gwynedd wedi gorfodi tenant rhif 1 Bryn y Gof, maent wedi caniatáu sefyllfa sy'n peryglu diogelwch y ffordd i gerddwyr o bob oed a gyrrwyr. Hefyd mae glendid ochrau'r ffyrdd a thu hwnt i'r sedd yn codi pryder i'r Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd wedi gorffen gosod tri thwmpath rhwng Bryn y Gof a Phenrhos, ond oedd hyn yn ddigon? Penderfyniad y Cyngor, ar gais y Cyng Vera Roberts, yw gofyn am 4 twmpath ychwanegol.

SYMUD TŶ. Mae Jayne a Tim Lloyd a'r genod wedi symud tŷ – o Dyddyn Cae ar draws y buarth i Ysgubor newydd.

APÊL Y TONNAU ENFAWR. Canlyniad y rhoddion gan drigolion y fro tuag at yr Apêl ar gyfer dioddefwyr y ddaeargryn a'r tonnau enfawr yn y Môr Indiaidd oedd £415. Diolch i bawb.

CLWB Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn yn y Ganolfan ar nos Iau, 27 Ionawr. Cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yng nghwmni Yvonne Griffith-Jones sy'n frodor o Gaeathro. Yvonne yw cyfarwyddydd polisi a datblygu 'Chwarae Teg'. Cawsom glywed am ei gwaith yn sicrhau cyfleoedd teg i ferched yn y gweithle a chymryd rhan mewn gwahanol gwisiau yn ymwneud â gyrfaoedd a chyflogau merched. Diolchwyd iddi am noson ddifyr gan Carey.

ARDDANGOSFA GOGINIO. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Eco gael ei gyhoeddi bydd Clwb y Merched wedi cyfarfod unwaith eto, ar nos Iau, 24 Chwefror i wylio Mrs Eirlys Williams yn paratoi salads a phwdinau. Byddwn wedi cael cyfle i flasu'r danteithion yn ogystal â dysgu sut i'w paratoi.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir cynnal y gwasanaethau canlynol ar Suliau ym mis Mawrth:

6: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Emrys Thomas.
17: 11.00 Ysgol Sul
20: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Mr Huw Jones
27: 10.00 Gwasanaeth
SUL Y PASG


**BWS BACH AR LOG**



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan (01248) 361044

**D. P. OWENS** RHIWLAS

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
**Ffôn: (01286) 870202**
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Jones & Whitehead Cyf.
Contractwyr Trydan
Goleuadau
Argyfwng ac offer Larwm Tân
Gwasanaeth i Cymru Cyfan
Aelod o NICEIC
Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol
Prif swyddfa
Penrala, Tregarth, Gwynedd
Ffôn: 01248 601257
Ffôn (nos):
01248 600477 a 601011
Ffacs: 01248 601982

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul
QUALITY HOTEL
*Quality Hotel Llanberis*
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS
*wrth droed yr Wyddfa*
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Miss Megan Davies, Craig-y-don, ac i Eifion Jones, Bod Elen, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YR YSGOL GYNRADD

Rhaid diolch yn fawr iawn unwaith eto i'n Cymdeithas Rhieni ac Athrawon gweithgar. Aeth criw o rieni i Safeway, Caernarfon, ar ddydd Sadwrn, 12 Chwefror i bacio siopa cwsmeriaid. Roeddynt yn gweithio ar rota, ond bu rhai ffyddlon yno drwy'r dydd! Gwnaed y swm anrhydeddus o £684 i'r ysgol – diolch o galon. Diolchwn hefyd i gwmni Safeway am gael caniatâd i fynd yno. Gobeithio nad oedd Mrs Oliver a Mrs G. Roberts yn sgwrsio gormod wrth bacio!

Mae Miss Bethan Evans wedi gorffen ei chyfnod fel myfyrwraig gyda Blwyddyn 5 a 6. Mae'r plant wedi mwynhau eich cwmni a diolchwn ninnau yn fawr am ei gwaith, Bethan, tra'n dymuno pob lwc i'r dyfodol i chi.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Ionawr oedd 1. Mrs J. Roberts; 2. A. Parry; 3. Iolo Garton. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Mae'r Cyngor Ysgol wedi archebu Teganau Buarth newydd ac maent wedi cyrraedd erbyn hyn. Mae Egwyl y Bore yn un prysur iawn bellach gyda digonedd o ddewis gweithgareddau o'r sach.

Cafodd plant yr Urdd fynd i ddisgo yn Ysgol Syr Hugh Owen a diolchwn i Mrs Oliver am fynd draw i gadw llygaid arnynt. Daeth Chris Pritchard i un cyfarfod i wneud dipyn o Karate gyda'r aelodau – roeddynt yn meddwl ei fod yn cŵl!

Cafwyd diwrnod heb wisg ysgol i godi arian i Apêl Tsunami a chasglwyd £117 i gyd. Da iawn blant.

Mae Mared Morris a Tom Barton wedi cael eu hethol gan eu cyd-ddisgyblion i fod yn Swyddogion Diogelwch y ffyrdd eleni.

## I sylw cyn-ddisgyblion Ysgol Sir Brynrefail 1900–1955

Bu i ni, sydd â'n henwau isod, ddigwydd cyfarfod ar faes y Brifwyl y llynedd. Gan fod y brifwyl eleni yng ngardd y Faenol, teimlwn y dylem geisio trefnu aduniad o gyn-ddisgyblion yr ysgol ar bnawn Iau neu Gwener y 'Steddfod mewn man cyfleus ar y maes. Er mwyn canfod a fydd hi'n werth i ni drefnu ymhellach, gofynnwn i'r sawl ohonoch fydd yn bwriadu dod i'r aduniad i gysylltu hefo un ohonom. Mae rhif ffôn pob un ohonom isod.

Hefyd, os gwyddoch am berthynas neu gydnabod sy'n byw tu allan i Wynedd a Môn ac sydd yn bwriadu dod i'r Steddfod, gadewch i ni wybod. Rhwng rwan a rhifyn Gorffennaf o'r *Eco* byddwn yn eich bwydo â threfniadau a datblygiadau pellach.

Mair Davies (Llanberis) a Huw Gwynfa Roberts (Llanrug): 01286 830655;

Owen Griffith, (Tan-y-coed): 01286 674503;

Eifion Hughes (Racca a Llanrug): 01248 410474;

Ifan Wyn Williams (Brynrefail): 01248 722312.


Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT
Retail Motor Federation

website: www.a-v-w.co.uk

Shell HELIX

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840


## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



PARTI NADOLIG Y PLANT.

Cafodd plant Cylch Ti a Fi barti Nadolig ar brynhawn Sadwrn, 18 Rhagfyr. Yr oedd hwn yn barti chwerth chweil yn ôl pob hanes. Roedd tua hanner cant o blant yno yn cael hwyl a sbri wrth dynnu cracers a bwyta, ac wrth gwrs, daeth y dyn ei hun i'w gweld. Hoffai mamau plant y Cylch Ti a Fi ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r cylch.

EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Unwaith eto diolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd yn ystod y mis diwethaf gan rai o'r ardal, ac hefyd rhai o blant yr ardal oddi cartref. Gan fod y casglu yn dal i fynd ymlaen buasem fel pwyllgor yn falch o bob rhodd, bach neu fawr. Gellir anfon eich rhoddion i'r Trysorydd, Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Edrychwn ymlaen at gynnal ychwaneg o weithgareddau yn ystod yr wythnosau sydd i ddod.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED Yng ngyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar Ionawr 20fed yng Nghanolfan Hen Ysgol Brynrefail cafwyd sgwrs gan Dafydd Wh. Thomas oedd yn dilyn hanes gŵr o Amwythig a ddaeth i fyw i ardal Llanrug a sefydlu ei hun fel gŵr busnes. Meinir Williams enillodd wobr y mis a oedd yn rhoddedig gan Gwen Edwards. Gwen ynghyd â Mai Davies baratodd y lluniaeth.

Fore Llun, Chwefror 14eg yn y Bore Goffi a gynhaliwyd yn y Ganolfan gwnaed elw o £207.75 tuag at Apêl Asia. Diolchir yn gynnes i bawb am eu cefnogaeth.

Nos Iau Chwefror 17eg daeth Iola o Lanberis i arddangos gwaith cywrain o greu blodau siwgwr ar gyfer addurno cacennau. Yn ystod y cyfarfod hefyd gwerthfawrogwyd yn fawr y swm o £250 a dderbyniodd Pat Jones, y llywydd, gan Gymdeithas Rasus Cŵn Defaid Nant Peris fel cyfraniad at Apêl Sefydliad y Merched Brynrefail i Gronfa Ysgol Pendalar.

Cyhoeddwyd y bydd y Cinio Gŵyl Ddewi eleni nos Fawrth, Mawrth 1af yn Dôl Peris, Llanberis.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r gangen yng Nghanolfan Hen Ysgol Brynrefail nos Iau, Mawrth 17eg pryd y bydd arddangosfa trefnu blodau.

PEN-BLWYDD ARBENNIG

Dymuniadau gorau i Dafydd Harri Morris, 5 Minffordd a ddathlodd ei ben-blwydd yn 21 oed ar Chwefror 23ain.

PROFEDIGAETH Fore Mawrth, Chwefror 15fed bu farw Mrs Blodwen Evans, Cae Gwyddel, yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun yn 92 mlwydd oed. Hanai o'r ardal, wedi ei geni yn Llanrug cyn symud i Lanberis lle cyfarfu â'i diweddar briod, William Evans, cyn symud i Frynrefail lle treuliodd y ddau 58 mlynedd o fywyd priodasol. Yn dilyn marwolaeth ei mab, Douglas, a'i phriod gofalwyd yn dyner amdani yng Ngae Gwyddel gan ei merch, Muriel, hyd nes y symudodd chwe mlynedd yn ôl i Gartref Nyrsio Penisarwaun. Bu'r angladd preifat yn y cartref fore Sadwrn, Chwefror 19eg ac yn dilyn yn gyhoeddus ym mynwent Llanrug. Gweinyddwyd gan y Parch Eifion Williams, Llanfairfechan. Cydymdeimlwn yn ddwys fel ardal â Muriel a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Dymuna Muriel ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag ati, am y blodau, a'r rhoddion tuag at Eglwys Bresbyteraidd Brynrefail ynghyd â gwasanaeth y Parch Eifion Williams a threfniadau trylwyr yr angladd gan Mr Dylan Griffith, Penisarwaun.

LLONGYFARCHIADAU i Rhian a Mared Morris, 5 Minffordd ar eu llwyddiant arbennig ym maes gymnasteg. Llwyddodd y ddwy i ennill y wobr gyntaf yn eu hoed ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Ysgolion Eryri.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

OEDFA CHWEFROR 20fed.

Cydymdeimlad – Ar derfyn y gwasanaeth cydymdeimlwyd â Muriel Evans, Cae Gwyddel, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam. Talwyd teyrnged i'r ddiweddar Mrs Blodwen Evans gan lywydd y mis, Mr Gwyn Hefin Jones.

Casgliadau Arbennig – Cyfeiriwyd yn ogystal yn yr oedfa at lythyr o werthfawrogiad gan Miss Anna Jane Evans, Ysgrifennydd

*(Parhad ar dudalen 19)*

## Silver Star
## GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**



## DODREFN PERKINS
**(Safle'r hen Nelson)**
**CAERNARFON**

**Ffôn: (01286) 676 040**

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco**



**CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL**

## CEIR CYMRU
**Bethel (01248) 670451**

**(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)**

**Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.**

**'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**



## Dodrefn Da am Bris Discount

THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
**CWM-Y-GLO**

Ffôn: **01286 879060**

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrïoedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: **LLUN – SADWRN 10.30 – 5p.m.**



## R.M. (DIC) PARRY
**PEINTIWR AC ADDURNWR**

*PRISIAU RHESYMOL*

**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**



## Am Offer Tŷ a Gardd...
**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
**Ffôn: (01286) 872501**



Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

## Eifion Hughes (7 diwrnod)
*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*



**Gosodwr Teils**
Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
**01286 830 805**





**CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR**

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG



**am help:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**



**Sychlanhau • Altro**
Allwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis


Ffôn: **870088**

## SWIGOD A SEBON
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO


**DRAENOG**

Does dim gwir yn y sibrydion sydd ar led yn yr ardal fod budd-daliadau a phensiynau yn cael eu cwtogi dros y mis nesaf i dalu am injan newydd i bost-feistr anffodus a geisiodd osod ei stamp ei hun ar ei gerbyd drwy fethu gwahaniaethu rhwng petrol a diesel. Bu edgar – sori, ei gar oddi ar y lôn am rai dyddiau.

# CROESAIR MAWRTH



**Mae'r wyth enw sydd heb gliwiau iddynt yn frodorion o wledydd yn Ewrop.**

**Ar Draws:**

5 Byddai'r testun, o gwmpas hanner cant, yn datguddio merch! (4)
7 Cost ofnadwy y nwyddau yn y siop (4)
10 Y math liwiau i wersylloedd ieuenctid a'r Urdd yn dechrau dadleuon! (8)
14 Planhigyn gwenwynig o amgylch ceg yr ogof (5)
15 Peth trugarog mewn taith o Accra i Ffrainc (5)
17 Natur ffrwydrol yr adyn (5)
19 Siarad ofer yw dweud fod wal rhwng diwedd y gwrych a dechrau 31 ar draws! (7)
22 Brifo yn y dreflan a fu unwaith yn le diogel! (5)
23 Epiliaid y fuwch (3)
27 Arwerthwr (8)
29 Awyr y pennaeth? (3)
31 Cynhyrchu wy (5)
32 Gwlad sydd i'r gogledd o Fwlgaria (7)
35 Yn anfynych fydd Malan yn feddw! (5)
37 Anifail sy'n byw yn y dŵr ac yn cyfarth? (5)
39 Merch toriad y dydd? (5)
41 Rhannau ymadrodd sy'n goleddfu berf neu ansoddair (8)
43 Marc a'i lofnodiad? (8)
44 O ffurf cylch neu bêl (4)

**I Lawr:**

1 Pentref dychmygol Wali, Tecwyn a'r criw (4,3)
2 Planhigyn ac iddo flodau gwyn neu fioled (5)
3 Y pridd gwael sydd rhwng y graig a'r pridd da (7)
4 Dechrau delfrydol i Alun newid cyfeiriad a rhedeg i ffwrdd! (5)
6 Beth wna hanner ceffyl a hanner asyn? (3)
8 Caneuon, yn enwedig y rhai a glywir yn y gwasanaeth (5)
9 Ai 25 ceiniog fyddai gwobr y bardd ers talwm? (5)
12 Dryswch 45 ar draws hurt heb ddechrau heneiddio. Ie, dryswch! (7)
13 Lle diogel i long angori cyn y storm (5)
18 Addunedu i olch ei draed yn y baddon? (3)
20 Cyhydnos i'r gogledd o wlad 45 ar draws? (5)
21 Gwneud datganiad (7)
23 Darn hir cul o liain a ddefnyddir i glymu (5)
24 Hon sy'n 31 ar draws! (3)
25 Y coed sydd â adenydd i'w hadau (3)
30 Aderyn Ednyfed? (3)
33 Cau allan drwy godi wal (7)
34 Ai enllibiwr yw'r un sy'n hyfforddi yn y pwll nofio? (7)
35 Mae anifail o Ganada yng ngharafan Cyngor Sir Gwynedd! (5)
36 Ar ôl trin y fawd, gall fod yn hanner marw! (5)
38 Eiddew (5)
40 Argymell fod Ann o Gaernarfon y cynnwys gair cyfystyr (5)
42 A hwn oedd y cyntaf! (3)

Gair bach cyn dechrau cloriannu. Anaml mae'n digwydd fod dau air yn ffitio'n union i'r sgwâr a hefyd yn ateb perffaith (neu ddigon agos) i'r cliw. Fel arfer, pan fo hyn yn digwydd, wrth ddarllen eich atebion chi y byddaf i'n sylweddoli hynny. Fe ddigwyddodd ddwywaith yng nghroesair Chwefror, ac felly, wrth gwrs, mae'r ddau ateb yn gywir yn y ddau achos.

Cyfeiriaf yn gyntaf at 26 i lawr *'twb neu gasgen'*. CELWRN oedd yr ateb oedd gen i dan sylw, ond CERWYN a gefais gan nifer ohonoch.

Yna 35 i lawr – *'dyn eithriadol o gryf'*. Am SAMSON yr oeddwn yn chwilio, ond pwy fyddai'n ddigon dewr i anwybyddu TARSAN?

Derbyniais atebion i'r croesair gan Ceinwen Williams ac Olwen Jones, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; N. Hughes, Cwmyglo; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Gwen Griffith, Deiniolen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Pat Owen, Caerfyrddin; Gareth Oliver, Tregarth; Alvona Jones, Prestatyn; Elfed Evans, Llanllechid; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Jennie Williams, Clynnog; Megan Morris ac Alice Griffith, Dinorwig; Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; Olwen Owen, Nan Owen, Moreen Lennon ac A. Hughes, Llanberis; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon.

Eluned Jones, 5, Llwyn Aethnen, Trefor, Caernarfon ydi enillydd y mis.

Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Mawrth, gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 21 Mawrth.



## Cefnogwch ein Hysbysebion

## Atodiad BRYNREFAIL

(*Parhad o dudalen 17*)

Rhanbarth Gogledd Cymru i Gymorth Cristnogol am y casgliad o £122.34 i gronfa 'Plentyn Bethlehem', sef elw Noson Garolau 2003 a'r casgliad anrhydeddus o £150 a wnaed nos Sul Ionawr 23ain a'i drosglwyddo i Gronfa Apêl Asia Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD Mawrth 4ydd 2005

Estynnir croeso cynnes iawn i unrhyw un ymuno, yn chwiorydd neu frodyr, yn y Gwasanaeth arbennig hwn am 2 o'r gloch yn y Festri. Paratowyd y gwasanaeth byd-eang hwn eleni gan chwiorydd Gwlad Pwyl ar y testun 'Llewyrched ein Goleuni' a bydd Mrs Jennie Roberts, Ffrwd Madog yn ymgymryd â'r trefniadau lleol. Gwneir casgliad yn ystod yr oedfa.

OEDFEUON MAWRTH

6 Mr Huw Jones, Llanwnda am 5.30;
13 Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30;
20 Mr Robert M. Morris, Penygroes am 5.30
27 SUL Y PASG
Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon am 10.00
Gweinyddir y Cymu

caban

I fwyta ac yfed mewn awyrgylch braf, deuluol, galwch acw!

Yr Hen Ysgol, Brynrefail

Ffôn: 01286 685462

Rhan o Brosiect Dylunio a Menter Eryri

## RHODDION

**£20:** Margaret ac Elen, 7 Afon Rhos, Llanrug, er cof am Ianto; Nan Wilson Evans, Manod, 17 Ffordd Capel Coch, Llanberis.

**£10:** Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun; Mrs Mair N. Davies, Tan y Graig, Ceunant.

**£5:** Elinor Williams a Grace Tate, Deiniolen; Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug; Mr Gordon Brown, Sutton Coldfield (Ffordd Deiniol, Deiniolen gynt); Megan Elen, Ger y Ffynnon, Waunfawr; Maldwyn, Paul a Michal Jones, Pwllheli; Elfed Evans, Llanllechid.

**£2.40:** Debbie Guy, 4 Tai Caradog, Deiniolen.

**£2:** Di-enw, Bethel.

## Atodiad LLANBERIS

DIOLCH: Dymuna Maldwyn, Paul a Michal, Pwllheli, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl, Rita.

YSGOL SUL CAPEL COCH: Mae'r Ysgol Sul yn parhau yn brysur. Wedi holl fwrlwm tymor y Nadolig gyda'r gwasanaeth, a'r parti, a'r Bowlio 10 i'r dosbarth uwchradd, mae'r ddeufis diwethaf wedi bod yn amser i ganolbwyntio ar y gwaith cyson o ddysgu'r plant am Iesu Grist a'i Efengyl. Mae'n dda gweld y plant yn dod yn llawn brwdfrydedd i'r Ysgol Sul yn gyson. Mae tymor y cymanfaoedd o'n blaenau rwan, a bydd angen paratoi ar eu cyfer. Fe gafwyd un Sul o wyliau hanner tymor, ond fel arall mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod yn y festri am 11.15 o'r gloch bob bore Sul. Mae croeso cynnes i unrhyw blentyn ymuno â ni, ac mae'n braf gweld wynebau newydd yn gyson.

# CHWARAEON

## Un, Dwy … Tair?

Pan fyddwch yn darllen y golofn hon byddaf yn paratoi i hedfan i Paris ar gyfer gêm nesaf Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Mae criw ohonom am ddychwelyd yno i ail fyw ein ymweliad olaf, ddeng mlynedd yn ôl. Stadiwm fawreddog y Parc de Prince – powlen goncrid swnllyd – oedd yr atyniad bryd hynny.

Erbyn hyn y Stade de France yw'r atyniad. Nesaf i Stadiwm y Mileniwm mae'n siŵr mai hon yw un o brif feysydd chwaraeon Ewrop. Yn sicr bydd safon y maes yn welliant ar gae tatws Caerdydd. Dylai hyn fod o fantais i olwyr chwimwth y Crysau Coch.

Mae'r ddwy fuddugoliaeth yn erbyn Lloegr a'r Eidal wedi tanio'r genedl. Nid yn unig ennill, ond ennill mewn steil. Mae rhai o gyn sêr y 70a'u wedi hir bregethu mai trwy chwarae ein gêm agored, gyflym, gynhenid mae adennill parch ein gwrthwynebwyr.

Mae hyn yn wir, mae'n siŵr. Tybed a yw'r ffaith mai Cymro sy'n llywio'r tactegau yn factor allweddol. Braf oedd gweld dyfyniad gan Mike Ruddock yn ddiweddar yn sôn bod Cymru ar eu gorau pan maent yn arddel eu steil eu hunain, nid copio gwledydd eraill.

Y mae'n bwysig fod y llwyddiant yn parhau gan fod o hyd amheuon ynglŷn â strwythr rygbi clwb ar yr haen uchaf. Am y tro cyntaf ni fydd clwb o Gymru yn rownd yr wyth olaf o Gwpan Heineken Ewrop. Yn naturiol felly bydd colled mewn elw, cyhoeddusrwydd a phrofiad i'r chwaraewyr. Bydd temtasiwn i rai o'r prif chwaraewyr i ddilyn Stephen Jones, Gareth Thomas ac eraill i feysydd brasach Lloegr a Ffrainc.

Y mae Undeb Rygbi Iwerddon eisioes wedi ymateb i'r her, drwy roddi cytundeb canolog i'w prif chwaraewyr, fel Brian O'Driscoll, i'w cadw gyda taleithau Iwerddon. Does dim syndod felly fod rygbi Iwerddon ar lefel clwb ac yn rhyngwladol o safon uchel ar hyn o bryd.

Yng nghyswllt clybiau Cymru, trist oedd clywed am y bwriad i werthu Pwllgwaen – neu Heol Sardis – cartref clwb rygbi Pontypridd. Pan oeddwn yn dysgu yn yr ardal, ddechrau'r 70a'u, ar gae gwael yng nghornel parc Ynysangharad yr oedd y clwb yn chwarae. Doedd fawr o lewyrch, a'r tueddiad oedd i'r clwb fod yn feithrinfa i glybiau mwy.

Yna symud i Bwllgwaen, a meithrin y syniad o 'dîm y cymoedd' a bedyddio'r maes yn 'Gartref Poen'! Daeth y dyddiau da a fflyd o chwaraewyr fel Jenkins, Morgan, Sidoli a Sweeny yn gwisgo'r crys coch. Gyda datblygiad y timau rhanbarthol, gefeillwyd 'Ponti' â chymar hollol anaddas, sef Gleision Caerdydd. Nid oedd gobaith i'r 'briodas', mor wahanol yw cefndir ac anian y ddau dîm, ac yn sicr eu cefnogwyr.

Doedd fawr o groeso i'r cotiau ffwr a'r *G. and T's* i Bwllgwaen, dim mwy nag i acenion y cymoedd i Barc yr Arfau. Y canlyniad yw fod y rhanbarth yn gwegian. Rhyfedd meddwl mai yn y rhan yna o Gymru, sy'n cwmpasu Caerdydd, Dyffrynnoeddd Taf, Elai a'r Rhondda, ac ardal Penybont, y mae trwch poblogaeth Cymru. Rhaid aildanio brwdfrydedd cynharach yr ardaloedd hyn.

Yn y gorllewin, bydd clwb Gweilch Tawe / Nedd yn symud i stadiwm newydd ar gyrion Abertawe. Gydag arweiniad Lynn Jones a'i hyfforddi dyfeisgar, a phresenoldeb y ddau eicon ieuanc, Gavin Henson a Shane Williams yn denu'r torfeydd, mae'n edrych yn dda yn ein 'ail ddinas'.

Bydd hyn yn her i'n rhanbarth 'ni', sef tiriogaeth y Sgarlets. Tîm arall sy'n dioddef ar hyn o bryd, a hwythau ar fin symud i gartref newydd o draddodiad ysbrydol y Strade. Ni all unrhyw dîm fyw ar 9–3 am byth!

Braf fuasai meddwl os oes ail Oes Aur ar y gorwel, y buasai carfan rhanbarth y gogledd yn chwarare ei ran.

Gobeithio y caf ddychwelyd o Ffrainc a'n record ddi-guro yn parhau. Allez! Pays de Galles.

## Llwybrau Datblygiad

Dros y blynyddoedd mae llawer wedi fy nghyhuddo o ddefnyddio'r colofnau hyn i hyrwyddo achos campau Cymru, ac yn enwedig Cynghrair Pêl-droed Cenedlaethol Cymru. Nid wyf yn gwadu hyn, gan fy mod yn wir gredu mai dyma y llwyfan i arddangos ein doniau lleol.

Buaswn yn hoffi gweld cynghrair yn seiliedig ar dimau'r Gynghrair Genedlaethol. Gellid chwarae'r gemau cyn y brif gêm, neu ar fore'r gêm. Gallai'r timau hŷn ac ieuenctid deithio gyda'i gilydd. Yn sicr dylai rhai o chwaraewyr ieuanc y gynghrair anelu – trwy ymroddiad a ffitrwydd – i gyrraedd carfan dan 21 Cymru. Yn yr un modd dylai clybiau, gyda chymorth awdurdodau lleol, ddatblygu cyfleusterau – yn enwedig safon y meysydd. Mae safon gwael nifer o'r meysydd yn llesteirio datblygiad sgiliau.

Yng nghefn fy meddwl mae penderfyniad anhygoel Arsenal yn ddiweddar i ddewis carfan o 16 ar gyfer gêm uwch gynghrair nad oedd yn cynnwys unrhyw Brydeiniwr, heb sôn am Sais. Mae llawer colofnydd wedi ymateb i'r sefyllfa unigryw yma, gan bwysleisio beth allai'r penderfyniad arwain ato. Yn sicr, nid yw yn datblygu cyfleon chwaraewyr cynhenid, ac mae'n siŵr o effeithio ar ein timau rhyngwladol.

Nid wyf am ailadrodd ond hoffwn bwysleisio fy hen ddadl mai eithriad hynod fydd i unrhyw chwaraewr lleol bellach gamu i Anfield, Goodison neu Old Trafford.

Chwi reolwyr a hyfforddwyr lleol, oni ellir magu'r syniad yn eich chwaraewyr i anelu at gynhyrchioli clybiau lleol yng Nghynghrair Cymru, neu hyd yn oed Wrecsam, a gosod hynny yn darged realistig. Oes rhaid gaddo'r byd i drueiniaid na fydd byth yn cyrraedd uchelfannau y gêm broffesiynol. Beth sydd o'i le ar i bob tîm lleol fod yn feithrinfa i'r clybiau Cymreig. Beth am fod yn blwyfol, a gweld Cymru fel ein 'plwyf'.


## Angen Newid Rheol?

Soniais y mis diwethaf ei bod yn ymddangos fod defnydd o'r rheol *'ungentlemanly conduct'* yn prysur ddiflannu o'r gêm. Rheol arall sydd i'w gweld yn diflannu yw honno sy'n ymwneud â 'gwarchod' neu 'rwystro' sef y rheol *'obstruction'*. Yn ei hanfod, stopio chwaraewr rhag cyrraedd y bêl drwy ddefnyddio'r corff.

Cawn sylwebwyr heddiw yn canmol 'dawn' amddiffynnwr i 'warchod' y bêl, neu redeg y bêl allan, ble yn fy marn i mae rhwystro pendant. Yr hyn sy'n ddadleuol i mi yw'r pellter o'r ffin gwsg y gadewir i amddiffynnwr 'warchod' y bêl. Yn aml gall fod hyd at ddeng metr. Nid yw hyn yn rhesymol, er ei fod yn cael ei ganiatáu gan y mwyafrif o ddyfarnwyr.

Un o dactegau mwyaf hanfodol unrhyw gêm bêl yw mynd tu cefn i'r amddiffyn. Cefais fy nysgu i fynd 'am y lein' cyn croesi, gan na all unrhyw flaenwr wedyn fod yn cam-sefyll. Credaf fod y dacteg gwarchod – gyda chaniatâd y dyfarnwyr – yn lladd y frwydr gynhenid rhwng asgellwr a chefnwr. Tacteg yw i fyrhau y maes chwarae. Yn ddiweddar gwelsom rai ymosodwyr yn cael eu hyrddio yn erbyn y byrddau hysbysebu heb ddim ymateb. Gall unrhyw asgellwr gwerth ei halen greu cryn ddifrod mewn ychydig fetrau. Os yw amddiffynnwr yn rhwystro â'i gorff cyn belled o'r llinell, yna yn fy marn i, dylid ei gosbi am 'rwystro bwriadol'. Sylwch yn y gêm nesaf y byddwch yn ei gwylio – boed yn fyw neu ar y teledu – faint o giciau 'anuniongyrchol' a ddyfarnir. Mewn gêm sy'n ffafrio amddiffyn fwy fwy, teimlaf y buasai dyfarnu llyfnach i'r rheol 'rhwystro' yn gwella'r gêm, gan gynyddu mwy o ddigwyddiadau ceg gôl.

## Wedi'r Cystadlu, y Dewis




I'r sawl ohonoch sy'n dilyn hynt a helynt rasio traws gwlad a mynydd, byddwch yn gyfarwydd â'r enw Arwel Lewis. Mae Arwel wedi ymgartrefu ym Mro Eglwys ym Methel ers sawl blwyddyn bellach ac yn aelod blaenllaw o glwb brwdfrydig Eryri. Yn wir, mae'n aelod ers 1986, ac erbyn hyn ef yw ysgrifennydd yr adran o'r clwb sy'n trefnu Rasus Ffordd.

Eleni mae Arwel wedi cymryd y cyfrifoldeb o drefnu y ras boblogaidd dros 10km yn ardal Caernarfon. Fe'i cynhelir ar ddydd Sul, 4 Medi, ac eleni bydd y ras yn cyfrif tuag at Bencampwriaeth Gogledd Cymru.

Bu Arwel yn un o brif redwyr y gogledd ers sawl blwyddyn a bu'n cynrychioli timau rhedeg ffordd gogledd Cymru a Chymru ar sawl achlysur. Bu'n gystadleuydd cyson ym Marathon Llundain, gyda'i amser gorau yn 1989, sef 2 awr 24 munud.

Ers sawl blwyddyn bu'n cystadlu yn Ras yr Wyddfa, ac yn wir gorffennodd yn ail unwaith a thrydydd dair gwaith. Tipyn o record yn un o brif rasus y calendr rhedeg mynydd.

Yn amlwg, mae'n uchel ei barch yn y cylchoedd rhedeg, a'r llynnedd fe'i gwobrwywyd â thlws Paul Brooks gan Fwrdd Athletau Gogledd Cymru, am ei wasanaeth dros sawl blwyddyn i'r gamp o redeg ar y ffyrdd.

I goroni'r cyfan, yn ddiweddar cafodd y fraint o'i ethol ar bwyllgor Cymru o'r gymdeithas sy'n adolygu rhedeg ar y ffyrdd. Fel aelod o'r pwyllgor mae felly yn ddewiswr ar gyfer y tîm cenedlaethol ac yn derbyn y statws o weinyddu mewn cystadlaethau rhyngwladol. Mae hyn yn bluen yn ei gap ac yn glod teilwng i'r rhedwr cystadleuol, diymhongar yma.